# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2018

## Er mwyn cyflawni Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995
## Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

## Medi 2018

| | |
|---|---|
| ***Swyddog yr Awdurdod Lleol*** | Lisa Jones<br>Alun Rees |
| ***Adran*** | Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel |
| ***Cyfeiriad*** | Neuadd y Dref, Heol Iscennen, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin. SA18 3BE |
| ***Ffôn*** | 01267 288 910<br>01269 598255 |
| ***E-bost*** | lisajjones@sirgar.gov.uk<br>ajrees@sirgar.gov.uk |
| ***Rhif Cyfeirnod yr Adroddiad*** | Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2018 |
| ***Dyddiad*** | Medi 2018 |

# Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal

## Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin

Y prif lygrydd ansawdd aer sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin yw nitrogen deuocsid ($NO_2$) a phrif ffynhonnell allyriadau $NO_2$ yn y sir yw traffig ffyrdd. Rydym wedi datblygu rhwydwaith monitro sy'n dilyn rhai o'n ffyrdd prysuraf a strydoedd gyda'r tagfeydd mwyaf i'n galluogi i arsylwi ar dueddiadau mewn crynodiadau $NO_2$ ac asesu effeithiolrwydd unrhyw newidiadau a wnaed mewn ymgais i wella ansawdd yr aer yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r tueddiadau yr arsylwyd arnynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gostwng ychydig o'u cymharu â 2016, ond, er hynny, mae pedwar safle o fewn ein Hardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (dau yn Llanelli, un yng Nghaerfyrddin ac un yn Llandeilo) yn fwy na'r Amcan Ansawdd Aer ar gyfer 2017, gyda nifer o safleoedd yn parhau ar y ffin. Ni nodwyd gostyngiad sylweddol dros y tair blynedd diwethaf ac, yn ystod 2017, gwnaeth misoedd y gaeaf brofi hinsawdd gynhesach, a allai gyfrif am y duedd hon yr adroddwyd arni. Felly, mae hi'n rhy gynnar darogan a fyddwn ni'n parhau i weld tuedd ar i lawr ar ddiwedd 2018.

Ar hyn o bryd, mae gan Sir Gaerfyrddin dair Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Ceir manylion pellach ar ein gwefan: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/ansawdd-aer/#.XGFVwVz7TIU

Cafodd adolygiad ail flwyddyn o Gam 1 cynllun gweithredu Llandeilo ei gynnal yn 2017 a chafodd ei gynnwys yn Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2017. Mae'r camau gweithredu sy'n weddill o Gam 1 cynllun gweithredu Llandeilo wedi cael eu hasesu a'u cynnwys yn Atodiad H yr adroddiad cynnydd hwn.

Cafodd Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli eu dynodi a chyhoeddwyd gorchmynion ym mis Awst 2016. Roedd y cynlluniau gweithredu ar gyfer y ddwy dref yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2017. Cafodd yr

ymatebion eu hadolygu a chyflwynwyd drafft terfynol o’r cynlluniau gweithredu i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2017.

Ni chafodd unrhyw brif ffynonellau newydd o lygredd heb ei reoli neu allyriadau sy'n ffoi eu nodi o fewn y sir yn ystod 2017 ac, er bod nifer o ddatblygiadau ar waith, y bu cynnal asesiadau o’r effaith ar ansawdd yr aer yn ofynnol ar gyfer rhai ohonynt, ni chafodd unrhyw effeithiau sylweddol eu nodi. Er hynny, mae cydweithio â chynllunwyr a datblygwyr yn parhau a, lle bynnag y bo modd, mae mesurau pellach yn cael eu hannog i liniaru unrhyw effaith y gallai datblygiad ei chael ar ansawdd aer.

Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda nifer o bartneriaid i reoli ansawdd yr aer yn lleol yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Priffyrdd, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, ysgolion lleol a Phrifysgol Abertawe.

## Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer

Yn ystod 2017, rhoddwyd Trwydded Amgylcheddol i un broses newydd ar gyfer cyfarpar symudol er mwyn rheoli allyriadau. Fodd bynnag, gan ei fod yn gyfarpar symudol gyda'r hyblygrwydd i symud lleoliadau, mae ganddo'r potensial i symud i leoliadau eraill y tu allan i'r sir gan ddibynnu ar ble y caiff ei ddefnyddio.

Gwnaeth Sir Gaerfyrddin hefyd dderbyn naw cais cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd a gwblhaodd Asesiadau Ansawdd Aer, ac o'r rheini nododd wyth y byddai unrhyw effaith yn ddibwys a chafodd un ei wrthod. Roedd saith cais ychwanegol hefyd yn gallu cyfiawnhau nad oedd unrhyw Asesiad Ansawdd Aer yn angenrheidiol. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chanllawiau polisi Llywodraeth Cymru i leihau llygredd awyr cyhyd ag y bo modd, manteisir ar bob cyfle i weithredu mesurau i wella ansawdd aer drwy'r broses ddatblygu. Gwneir hyn, er enghraifft, drwy hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy ac ystyried seilwaith cerbydau trydanol.

Cafodd ymarferion sgrinio aer eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol yn ystod 2017 a gellir dod o hyd i'r ymarferion hyn yn Atodiad G yr adroddiad hwn. Ni wnaeth y gwaith

monitro nodi unrhyw achosion o dorri'r amcanion. Mae gwaith monitro pellach mewn lleoliadau eraill yn cael ei gyflawni yn ystod 2018 ac adroddir ar y canlyniadau yn Adroddiad Cynnydd 2019.

Cafodd tri ymweliad heb rybudd i wirio ar gydymffurfiaeth ag amseroedd segur locomotif stêm Cwmni Rheilffordd Gwili eu cynnal a nodwyd cydymffurfiaeth yn ystod dau allan o'r tri ymweliad hyn. Fodd bynnag, nid arsylwyd ar unrhyw allyriadau mwg tywyll yn ystod adegau'r ymweliadau.

Ni chynhaliwyd unrhyw waith monitro $PM_{10}$ yn ystod 2017 oherwydd ni nodwyd unrhyw faterion llwch sylweddol yn ystod y 12 mis blaenorol.

## Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r prif ffynonellau llygredd yn gysylltiedig ag allyriadau traffig a dyma'r lle y mae'r gwaith ansawdd aer yn cael ei ganolbwyntio. Fodd bynnag, mae ffynonellau diwydiannol yn cael eu cadw o dan adolygiad ynghyd â'r arferion gweithio yng Ngorsaf Rheilffordd Gwili.

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio gan fwyaf ar asesu dichonoldeb y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin a Llanelli, gan geisio hefyd datblygu'r mesurau a amlinellwyd yn y cynllun gweithredu ar gyfer Llandeilo.

Bydd ymarferion sgrinio hefyd yn cael eu cynllunio i asesu'r effaith gadarnhaol a ddylid ei hachosi drwy Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a bydd gwaith monitro $NO_2$ pellach yn cael ei gyflawni yng Nghaerfyrddin i sicrhau nad yw unrhyw waith ar gyfer y cynllun gweithredu yn symud y broblem i leoliad arall.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ymgysylltu ag ysgolion a leolir o fewn ein Hardaloedd Rheoli Ansawdd Aer er mwyn codi ymwybyddiaeth o lygredd aer lleol ac annog teithio llesol. Drwy weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, cynllunnir monitro lefelau nitrogen deuocsid o amgylch gatiau ysgol ar gyfer cwpwl o ysgolion o fewn y sir sydd wedi'u lleoli o fewn ein trefi mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

## Sut i Gyfrannu

Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi helpu i wella ansawdd aer yn eich ardal. Ceisiwch leihau'r defnydd o geir ar gyfer teithiau un unigolyn, drwy rannu ceir, defnyddio dulliau teithio amgen cynaliadwy megis cerbydau trydanol a thrafnidiaeth gyhoeddus, beicio, neu gerdded i'r gwaith. Teithiwch yn fwy llesol drwy gymryd rhan mewn wythnosau cerdded a beicio cenedlaethol a gwnewch ddefnydd da o'r llwybrau beicio a wellwyd ar draws Sir Gaerfyrddin. Gallwch wella llygredd ger y gatiau ysgol drwy beidio â chadw injans ceir yn rhedeg wrth aros a gwella llwybrau cerdded a beicio ar gyfer ysgolion drwy ymuno â chynlluniau megis Strydoedd Byw i annog plant i deithio'n llesol.

I gael rhagor o wybodaeth am ansawdd aer yn Sir Gaerfyrddin, ewch i:
https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/environmental-health/air-quality/#.W46Mg-mQzIU
neu
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/ansawdd-aer/#.W46YkumQzIU

Neu ffoniwch 01267 234567



Defnydd o Ddadansoddwr Awtomatig AQMesh i fonitro lefelau llygredd ar ymyl y ffordd.



Defnydd o diwb tryledíad i fonitro lefelau NO2 ar ymyl y ffordd o ffasâd eiddo.

# Tabl Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal ........................................... i**
Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin ........................................................................ i
Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer ........................................................... ii
Blaenoriaethau a Heriau Lleol ............................................................................ iii
Sut i Gyfrannu .................................................................................................. iv
**1. Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer ........................................................ 1**
1.1 Gwaith Blaenorol Mewn Perthynas ag Ansawdd Aer ................................................ 1
1.2 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ........................................................................ 6
1.3 Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar Waith ................................................................ 10
**2. Data Monitro Ansawdd Aer a Chymhariaeth ag Amcanion Ansawdd Aer ..... 27**
**Amcanion** ................................................................. Error! Bookmark not defined.
2.1 Crynodeb o Waith Monitro a Wnaed yn 2017 ........................................................ 27
2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig ........................................................................ 27
2.1.2 Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig ..................................................... 27
2.2 Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2017 .............................................................. 42
2.3 Cymhariaeth o Ganlyniadau Monitro 2017 â Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer ............................................................................................ 51
2.3.1 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) ............................................................................ 53
2.3.2 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$) ........................................................................ 55
2.3.3 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$) ....................................................................... 55
2.3.4 Llygryddion Eraill a Gaiff eu Monitro ............................................................... 55
2.4 Crynodeb o Gydymffurfiad ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer yn 2017 .........56
**3. Datblygiadau Lleol Newydd ........................................................................ 57**
3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a Thrafnidiaeth Eraill) ................................................. 59
3.2 Ffynonellau Diwydiannol / sy'n Ffoi neu Heb eu Rheoli / Ffynonellau Masnachol ......60
3.3 Ceisiadau Cynllunio ......................................................................................... 61
3.4 Ffynonellau Eraill ............................................................................................ 63
**4. Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd yn yr Awyr ..................... 65**
4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol/Ranbarthol .......................................................... 65
4.2 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer ........................................................................ 66
4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol ...................................................... 67
4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol ............................................................ 68
4.5 Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol .................................................................. 68
4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd ....................................................... 68

4.7 Strategaethau Newid Hinsawdd ....69
**5. Casgliadau a Chamau Gweithredu Arfaethedig .... 70**
5.1 Casgliadau o Ddata Monitro Newydd ....70
5.2 Casgliadau yn Ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd ....70
5.3 Casgliadau Eraill ....71
5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig ....72
**Cyfeiriadau .... 74**
**Cynllun Llesiant ar gyfer 2018–2023 .... 75**
**Strategaeth Gorfforaethol 2018–2023 .... 75**
**Gwefan Aer y DU DEFRA ar gyfer Rhwydweithiau Monitro .... 75**
**Atodiadau .... 76**
**Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledniad Misol .... 77**
**Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol .... 82**
Diben Adroddiad Cynnydd Blynyddol ....82
Amcanion Ansawdd Aer ....82
**Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer ... 84**
Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Tryledniad .... 84
Ffactor o Astudiaethau Cyd-leoliad Lleol .... 84
Trafodaeth ynghylch Dewis Ffactor i'w Ddefnyddio .... 84
Addasu Monitro Deunydd Gronynnol .... 84
Addasu Data o'r Tymor Byr i'r Hirdymor .... 84
Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Monitro Awtomatig .... 86
Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Monitro Tiwbiau Tryledniad .... 86
**Atodiad D: Mapiau Ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer .... 88**
**Rhestr Termau ....179**

## Rhestr o Dablau

Tabl 1.0 Crynodeb o Adrodd ar Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol ....5
Tabl 1.1 – Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a Gafodd eu Datgan ....7
Tabl 1.2 – Cynnydd ar Fesurau i Wella Ansawdd Aer ....12
Tabl 2.2 – Manylion Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig ....29
Tabl 2.2 – Canlyniadau Monitro Cymedr Blynyddol $NO_2$ ....42

## Rhestr o Ffigurau

**Ffigur 2.1 – Map(iau) o Safleoedd Monitro nad Ydynt yn Awtomatig..................36**
Ffigur 2.1.1 Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ nad Ydynt yn Awtomatig Llandeilo a Ffair-fach...........................................................................................................36
Ffigur 2.1.2 Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Caerfyrddin nad Ydynt yn Awtomatig ..........................................................................................................................37
Ffigur 2.1.3 Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Llanelli nad Ydynt yn Awtomatig............38
Ffigur 2.1.4 Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Porth Tywyn nad Ydynt yn Awtomatig...................................................................................................39
Ffigur 2.1.5 Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Rhydaman nad Ydynt yn Awtomatig...................................................................................................39
Ffigur 2.1.6 Map o Safleoedd Monitro $NO_2$ Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands nad Ydynt yn Awtomatig.......................................................................................40
Ffigur 2.1.7 Map o Safle Monitro $NO_2$ y Garnant nad Yw'n Awtomatig......................41
**Ffigur 2.2 – Tueddiadau o ran Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$..................50**

# 1. Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer

## 1.1 Gwaith Blaenorol Mewn Perthynas ag Ansawdd Aer

Aeth Adolygiad ac Asesiad Ansawdd Aer cyntaf Cyngor Sir Caerfyrddin allan ar gyfer ymgynghoriad ar ffurf ddrafft yn ystod haf 2001. Gwnaed yr asesiad gan gyfeirio at Reoliadau Ansawdd Aer 2000. Dim ond sylffwr deuocsid a nitrogen deuocsid a nodwyd yn asesiad Cam 1 fel elfennau lle roedd asesiad Cam 2 yn ofynnol. Daeth yr adolygiad drafft i'r casgliad nad oedd asesiad trydydd cam yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw lygrydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran lefelau nitrogen deuocsid o draffig ffyrdd, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin gomisiynu ymgynghorwyr i gynnal adolygiad ac asesiad trydydd cam o ran lefelau nitrogen deuocsid o draffig ffyrdd ar hyd ffordd benodol.

Cafodd adroddiad terfynol yr adolygiad a'r asesiad trydydd cam ei lunio ym mis Mawrth 2002 a daeth i'r casgliad ei fod yn annhebygol y byddai lefelau nitrogen deuocsid o ffynonellau traffig ffyrdd yn fwy na'r amcanion ac nad oedd unrhyw angen bryd hynny i ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Fodd bynnag, ystyriwyd ar gyfer asesiadau yn y dyfodol y byddai archwiliad pellach o effeithiau canion strydoedd yn fuddiol.

Dechreuwyd ar Asesiad Diweddaru a Sgrinio yn 2003 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004. Daethpwyd i nifer o gasgliadau ond cafodd cynnydd ar unrhyw rai o'r argymhellion ei ohirio tan i'r canllawiau gael eu cadarnhau. Gwnaeth blaenoriaethau llwythi gwaith o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin olygu na chafodd unrhyw ddogfennau ffurfiol pellach eu llunio tan yr Asesiad Diweddaru a Sgrinio nesaf.

Cynhaliwyd Asesiad Diweddaru a Sgrinio yn 2006, a oedd yn cynnwys Adroddiad Cynnydd ar gyfer 2005 (a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007), a daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw angen symud ymlaen at asesiad manwl ar gyfer carbon monocsid, bensen, 1,3-biwtadïen, plwm, nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid neu $PM_{10}$. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i'r casgliad fod angen astudiaeth cyd-leoliad nitrogen deuocsid er mwyn dilysu'r canlyniadau. Hefyd, er mwyn lleihau'r potensial o

ddatguddiad cyhoeddus i sylffwr deuocsid yng Ngorsaf Rheilffordd Gwili, roedd angen i Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin weithio gyda rheolwyr y cwmni rheilffordd. Mae hyn wedi parhau gyda chyfarwyddyd gweithio yn ymwneud ag amser segura injans stêm i fod yn llai na 15 munud pan fônt wrth ymyl y platfform.

Gwnaeth yr Adroddiad Cynnydd 2008 gwreiddiol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddod i'r casgliad y bu cynnydd o ran y nifer o safleoedd tiwb a oedd wedi bod yn fwy na'r amcan blynyddol. Mewn cyfanswm, roedd wyth safle wedi methu â bodloni'r amcan, a oedd yn fwy na'r disgwyl ac a oedd wedi cael ei ragweld. Nodwyd bod newid sylweddol o ran y ffigur addasu tuedd tiwb a ddefnyddiwyd o'i gymharu â'r ychydig o flynyddoedd blaenorol. Y ffigur oedd 0.90.

Fodd bynnag, ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth yr awdurdod dderbyn gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi bod y ffigur addasu tuedd diweddaraf wedi cael ei adolygu ac o ganlyniad wedi newid i 0.77. Hefyd, bod defnyddio'r offeryn newydd "$NO_2$ gyda phellter o'r ffyrdd" i bob pwrpas yn lleihau'r nifer o safleoedd tiwb a oedd yn methu'r amcan cymedr blynyddol. Cafodd adroddiad 2008 ei addasu'n fewnol i adlewyrchu'r newidiadau a darparu gwybodaeth hanesyddol gywir. Canlyniad net hyn oedd bod dim ond un lleoliad tiwb perthnasol wedi'i nodi fel un a oedd yn fwy na'r amcan ansawdd aer.

Gwnaeth Asesiad Diweddaru a Sgrinio 2009 nodi'r angen i symud ymlaen at asesiad manwl ar gyfer $NO_2$ yn Llandeilo, yn seiliedig ar fynd y tu hwnt i'r amcan cymedr blynyddol o 40µg/m$^3$ ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf ac nad oedd y gwaith ar y ffordd liniaru arfaethedig yn debygol o ddechrau yn ystod y pum mlynedd nesaf o leiaf. Gwnaeth yr Asesiad Diweddaru a Sgrinio hefyd argymell adolygiad llawn o'r rhwydwaith tiwb tryledadiad ac asesiadau ar gyfer y meini prawf ychwanegol a nodwyd yng Nghanllaw Technegol (09).

Gwnaeth Adroddiad Cynnydd 2010 ddarparu manylion yr asesiad manwl a sefydlwyd yn Llandeilo, ynghyd â darparu gwybodaeth am sut roedd y rhwydwaith tiwb tryledadiad wedi newid yn dilyn yr adolygiad yn 2009. Cafodd adolygiadau pellach o'r rhwydwaith tiwb eu hargymell.

Cafodd Adroddiad Asesu Manwl Llandeilo 2010 ei gyflwyno a'i dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau ar gyfer y dynodiad arfaethedig o Ardal Rheoli Ansawdd Aer o fewn y dref ac y dylai asesiad pellach ddilyn yr asesiad manwl. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad a chafodd Gorchymyn Ardal Rheoli Ansawdd Aer ei ddatgan ym mis Tachwedd 2011.

Gwnaeth Adroddiad Cynnydd 2011 ddarparu manylion pellach ar gyfer addasiadau i'r rhwydwaith tiwb trylediad a chynigion ar gyfer yr asesiadau manwl posibl a allai fod yn ofynnol ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli.

Gwnaeth Adroddiad Diweddaru a Sgrinio 2012 adolygu'r gwaith yn Llandeilo ers dynodi'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Gwnaeth adrodd y byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ac y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy sefydlu grŵp llywio a grŵp cynllunio gweithredu. Roedd y cynllun gweithredu i'w gyflwyno yn ddiweddarach yn 2013. Wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Diweddaru a Sgrinio roedd yr adroddiadau cynigion ar gyfer yr asesiadau manwl i'w cyflawni ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli, ynghyd â manylion addasiadau pellach a wnaed o ran y rhwydwaith tiwb trylediad yng ngweddill y sir.

Cafodd Adroddiad Asesiad Pellach Llandeilo ei gyflwyno a daethpwyd i'r casgliad fod cyfiawnhad dros yr awdurdod yn dynodi Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer y dref a bod ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn briodol. Cafodd gwaith dosrannu ffynonellau ei gyflawni a nodwyd y gostyngiad angenrheidiol mewn $NO_2$. Defnyddiwyd y canlyniadau o'r gwaith asesiad pellach i gynorthwyo gyda datblygu'r cynllun gweithredu.

Cyflwynwyd adroddiadau asesu manwl ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli a daethant i'r casgliad nad oedd y canlyniadau monitro wedi nodi'r ardal gormodiant a bod angen mwy o waith i adnabod ffiniau posibl. Cynigiwyd a gweithredwyd addasiadau i rwydweithiau monitro’r asesiadau manwl ar gyfer y ddwy dref o fis Ionawr 2013.

Gwnaeth yr asesiadau manwl a addaswyd barhau drwy gydol 2013 ar gyfer y ddwy dref a gwnaeth adolygiad o'r canlyniadau sefydlu bod yr ardaloedd gormodiant yn lleol

iawn ac yn debygol o fod i'w priodoli i nodweddion y lleoliad. Cyflwynwyd adroddiadau ar gyfer y ddau asesiad manwl estynedig ym mis Chwefror 2014 a chafodd y casgliadau a'r argymhellion eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaeth gwaith ar Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo barhau drwy gydol 2013 gyda chynllun gweithredu drafft yn cael ei ddatblygu yn ymgorffori adborth oddi wrth randdeiliaid amrywiol, a chafodd adroddiad ar y gwaith ynghyd â chynllun gweithredu drafft eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Medi 2013. Sefydlwyd canolfannau galw heibio mewn dau leoliad (Ffair-fach a Llandeilo) dros gyfnod o bythefnos a defnyddiwyd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad i adolygu'r cynllun gweithredu drafft. Gellir dod o hyd i fap ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo yn Atodiad D.

Yn 2014, cafodd y cynllun gweithredu ei gwblhau a'i gyhoeddi gyda gwaith yn parhau ar gynigion Cam 1. Gwnaeth y broses ddynodi ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn nhrefi Caerfyrddin a Llanelli hefyd ddechrau gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau cyngor amrywiol i'w cymeradwyo. Er y gobeithiwyd y byddai'r gorchmynion wedi cael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2015, roedd ymrwymiadau gwaith yn golygu nad oedd hynny'n bosibl.

Cafodd Asesiad Diweddaru a Sgrinio 2015 ei gyflwyno a'i dderbyn.

Gwnaeth y gwaith ar ddynodi'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli barhau yn ystod 2016 gyda'r gorchmynion yn cael eu llofnodi a'u cyhoeddi ar 2 Awst 2016. Cafodd cynlluniau gweithredu dilynol ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli eu drafftio yn 2017, gan gwmpasu adborth oddi wrth randdeiliaid amrywiol. Cafodd adroddiad o'r gwaith ynghyd â'r cynigion yn y cynllun gweithredu drafft eu cyflwyno wedyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2017 tan fis Medi 2017. Cafodd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu defnyddio i adolygu'r cynllun gweithredu drafft a chyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Gellir dod o hyd i fapiau ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Llanelli a Chaerfyrddin yn Atodiad D.

**Tabl 1.0 Crynodeb o Adrodd ar Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol**

| Adroddiad Ansawdd Aer | Cyflwynwyd |
|---|---|
| Adolygiad Ansawdd Aer Cyntaf (2001) | 2002 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2003) | 2004 |
| Adroddiad Cynnydd (2005) | 2007 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2006) | 2007 |
| Adroddiad Cynnydd (2008) | 2008 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2009) | 2009 |
| Adroddiad Cynnydd (2010) | 2010 |
| Asesiad Manwl Llandeilo (2010) | 2010 |
| Adroddiad Cynnydd (2011) | 2011 |
| Datganiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Llandeilo) (11/11/11) | 2011 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2012) | 2012 |
| Asesiad Pellach Llandeilo (2012) | 2012 |
| Asesiad Manwl Caerfyrddin (Rhagfyr 2012) + Adroddiad Rhwydwaith Asesiad Manwl a Addaswyd atodedig (ar gyfer Ionawr 2013) | 2013 |
| Asesiad Manwl Llanelli (Rhagfyr 2012) + Adroddiad Rhwydwaith Asesiad Manwl a Addaswyd atodedig (ar gyfer Ionawr 2013) | 2013 |
| Adroddiad Cynnydd (2013) | 2013 |
| Adroddiad Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Llandeilo (Ymgynghoriad Cyhoeddus) | 2013 |
| Adroddiad Asesu Manwl Estynedig ar gyfer Caerfyrddin | 2014 |
| Adroddiad Asesu Manwl Estynedig ar gyfer Llanelli | 2014 |
| Adroddiad Cynllun Gweithredu Llandeilo | 2014 |
| Cynllun Gweithredu Llandeilo | 2014 |
| Adroddiad Cynnydd (2014) | 2014 |
| Asesiad Diweddaru a Sgrinio (2015) | 2015 |
| Adolygiad Cyntaf Cynllun Gweithredu Llandeilo (2016) | 2016 |
| Adroddiad Cynnydd (2016) | 2016 |
| Datganiad Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Caerfyrddin a Llanelli) (02/08/16) | 2016 |
| Adroddiad Adolygu Sgrinio Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin (2016) | 2017 |
| Adolygiad Ail Flwyddyn Cynllun Gweithredu Llandeilo (2016) | 2017 |
| Adroddiad Cynllun Gweithredu Drafft Caerfyrddin a Llanelli | 2017 |
| Adroddiad Cynnydd (2017) | 2018 |

## 1.2 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan pan fo ansawdd aer yn agos at neu uwchlaw lefel dderbyniol o lygredd (a adwaenir fel yr amcan ansawdd aer (gweler Atodiad A)). Ar ôl datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, mae'n rhaid i'r awdurdod baratoi cynllun gweithredu ansawdd aer o fewn 18 mis yn amlinellu'r mesurau mae'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn gwella ansawdd aer o leiaf at yr amcanion ansawdd aer, os nad hyd yn oed yn well. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu gweld gan awdurdodau lleol fel y mannau i ganolbwyntio arnynt er mwyn sianelu adnoddau i'r ardaloedd llygredd mwyaf brys fel blaenoriaeth.

Gellir dod o hyd i grynodeb o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a gafodd eu datgan gan Gyngor Sir Caerfyrddin Tabl . Mae gwybodaeth bellach sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Lleol a ddatganwyd neu a ddiddymwyd, gan gynnwys mapiau o ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, ar gael ar-lein ar https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=395 Gweler y rhestr lawn ar http://uk-air.defra.gov.uk/aqma/list

**Tabl 1.1 – Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a Gafodd eu Datgan**

| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Amcan(ion) Ansawdd Aer Perthnasol | Sylwadau ar Dueddiadau Ansawdd Aer | Disgrifiad | Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo | Cymedr blynyddol $NO_2$ | Ni fu unrhyw welliant canfyddadwy mewn ansawdd aer yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer y tair blynedd diwethaf | Hyd yr A483 o gyffordd cylchfan yr A483 gyda'r A476 yn Ffair-fach i'r gogledd ar hyd Teras Tywi ar hyd Pont Llandeilo i mewn i Stryd y Bont yna Stryd Rhosmaen drwy ganol y dref tan gyffordd cylchfan yr A483 gyda'r A40. | Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo http://aqma.defra.gov.uk/action-plans/14.11---llandeilo-aqma-action-plan.pdf |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin | Cymedr blynyddol $NO_2$ | Ni fu unrhyw welliant canfyddadwy mewn ansawdd aer yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer y tair blynedd diwethaf | Mae'r ardal ddynodedig yn ymgorffori cyffordd Heol Ffynnon Job ar y B4312 yn Nhre Ioan ac yn teithio tua'r dwyrain i fyny Rhiw'r Gofeb ac i lawr Heol Picton i gyfarfod cylchfan Heol y Gwyddau. Mae'n parhau ar hyd Heol y Gwyddau, gan fynd ar drywydd y gogledd i fyny Heol Dŵr i'r gyffordd â Ffordd Glannant a Heol Pentrefelin, ymlaen i Heol y Sgubor a Theras Francis ac yn parhau i Waun Dew cyn troi i'r dde ar hyd Lôn yr Hen Dderwen a chyrraedd cylchfan yr Hen Dderwen. Mae'r ffin yn troi i'r dwyrain ar hyd Heol y Prior, drwy Abaty'r Ddôl ac mor bell â chylchfan Tanerdy ar yr A484, sef ochr fwyaf dwyreiniol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Ar gylchfan yr Hen Dderwen, mae'r ffin hefyd yn troi i'r dde ar hyd Heol y Prior a thrwy Heol y Llan, Heol Spilman ac ymlaen i'r gyffordd ar yr A484 o dan Neuadd y Sir. Mae'r ffin yn teithio i'r de ar draws Pont Tywi mor bell â chylchfan Pont Tywi, sef graddau deheuol yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. O'r gyffordd islaw Neuadd y Sir, mae'r ffin yn teithio i'r gorllewin ar hyd Ffordd y Cwrwg ac ymlaen at gylchfan Morfa cyn anelu i'r gogledd i fyny Lôn Morfa | Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin |

| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Amcan(ion) Ansawdd Aer Perthnasol | Sylwadau ar Dueddiadau Ansawdd Aer | Disgrifiad | Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| | | | i gyfarfod cylchfan Heol y Gwyddau ac yna mae'n anelu yn ôl i'r gorllewin i gyffordd Heol Ffynnon Job, gan gwblhau ffin yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer. | |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli | Cymedr blynyddol $NO_2$ | Ni fu unrhyw welliant canfyddadwy mewn ansawdd aer yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer y tair blynedd diwethaf | Mae'r ardal ddynodedig yn dechrau o'r rhan o'r A484 sy'n cael ei hadnabod fel Teras Bassett yn bell o'r gorllewin ar y gyffordd â Heol Waun Eos, gan deithio i'r dwyrain drwy Heol y Sandy ac yn cynnwys cylchfan Heol y Sandy. Mae'n parhau i ddilyn y cyfeiriad i'r dwyrain ar hyd A484 Heol Pen-bre cyn troi i'r gogledd i fyny Heol Newydd mor bell â'r gylchfan fach yn Ffwrnais, ac yna mae'n teithio yn ôl ar hyd Hen Heol mor bell â'r gyffordd â Stryd Thomas ar yr A476. Mae'r ffin wedyn yn teithio i'r gogledd-ddwyrain ar hyd yr A476 drwy Heol Felinfoel a Phanteg, mor bell â'r gylchfan fach sy'n ymuno â Rhes y Ffermwyr. Mae'r ffin yn teithio yn ôl i'r de-orllewin ar hyd yr A476 i lawr at Stryd Thomas, gan droi tua'r chwith ar hyd yr A484 a pharhau i'r gylchfan, a throi tua'r dde yn dilyn yr A4214 ar hyd Stepney Place. Mae'r ffin yn parhau ar hyd cyfres o gylchfannau bach, gan fynd drwy Stryd Robinson Uchaf a Stryd Murray cyn troi i'r dde ar y gyffordd â Heol yr Orsaf. Mae'r ffin yn parhau ar hyd yr A4214 drwy Stryd yr Eglwys, Stryd y Neuadd, West End i Heol Pen-bre, eto gan gynnwys cylchfan Heol y Sandy, cyn teithio yn ôl i'r gorllewin ar hyd Heol y Sandy ac ymlaen drwy Deras Bassett cyn cwblhau'r ffin ar y gyffordd fwyaf gorllewinol gyda Heol Waun Eos. | Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli |

Gellir gweld mapiau ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer o fewn Sir Gaerfyrddin ar https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=395 ac maent hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

## 1.3 Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar Waith

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bwrw ati gyda nifer o fesurau yn ystod 2017 ar drywydd gwella ansawdd aer lleol. Mae manylion yr holl fesurau a gwblhawyd, sydd ar waith neu'n cael eu cynllunio yn cael eu nodi yn Tabl . Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ar y mesurau hyn yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer sy'n ymwneud ag unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Lleol dynodedig.

Mae'r Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer yn cael eu hadolygu'n gyson ac yn cael eu diweddaru pan gredir bod hynny'n angenrheidiol, ond nid yn llai aml nag unwaith bob pum mlynedd. Mae diweddariadau o'r fath yn cael eu cwblhau mewn ymgynghoriad agos â chymunedau lleol.

Mesurau allweddol a gafodd eu cwblhau yn 2017 oedd:

Datblygwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin a Llanelli, a oedd newydd eu datgan.

Gwnaed gwaith ar asesu dichonoldeb y cynigion a oedd yn weddill a restrwyd o fewn Cam 1 cynllun gweithredu Llandeilo, gan gynnwys:

**8** – Hyrwyddo beicio a cherdded i'r ysgol yn fwy.
**9** – Hyrwyddo rhannu car i'r gwaith/ysgol.
**21** – Hyrwyddo llwybrau amgen (o bosibl drwy gysylltiadau cludiant) i leoliadau i'r gogledd o Landeilo fel y gall cerbydau osgoi'r dref.
**C1** – Asesu dichonoldeb gweithredu cyfyngiad pwysau 15 tunnell ar y bont islaw Stryd y Bont i sicrhau bod cerbydau mwy yn cael eu dargyfeirio i ffwrdd o'r dref.
**C4** – Asesu dichonoldeb cynllun treialu chwe mis ar gyfer cerbydau nwyddau trwm i ffwrdd o'r dref (ar wahân i ddosbarthu nwyddau).

Cafodd gorchmynion traffig yn cyfyngu ar amseroedd aros yn Stryd y Bont, Llandeilo, eu gweithredu a daethant i rym ar 17 Mawrth 2017.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach ar gynnydd dichonoldeb y cynigion a oedd yn weddill ar gyfer Cam 1 cynllun gweithredu Llandeilo yn Atodiad H.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn canolbwyntio ar ystyried y cynigion ar gynlluniau gweithredu Caerfyrddin a Llanelli. Mae grŵp cynllun gweithredu wedi'i sefydlu i weithio ar y cyd gyda phartneriaid ar draws y cyngor ynghyd â

phartneriaid allanol i ystyried y cynigion a, lle y bo'n bosibl, darparu gwelliannau i ansawdd aer y trefi hyn. Mae'r mesurau wedi cael eu blaenoriaethu yn Nhabl 1.2 a'u lliwio yn wyrdd (uchel), oren (canolig) a choch (isel) yn seiliedig ar effaith ddisgwyliedig ac effeithiolrwydd y mesur arfaethedig.

Bydd gwaith pellach hefyd yn cael ei gyflawni i adolygu dichonoldeb cynigion Cam 2 a gynhwysir o fewn cynllun gweithredu Llandeilo, y gellir dod o hyd iddo yn Atodiad I.

**Tabl 1.2 – Cynnydd ar Fesurau i Wella Ansawdd Aer**

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CAERFYRDDIN** | | | | | | | | | | |
| C1 | Gwella llwybrau beicio yn y dref ac o'i hamgylch. | Darparu dewis amgen i daith car | Cyngor Sir | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Y defnydd o lwybrau beicio drwy beiriant cyfrif | 0.1% | Llwybrau diogel mewn cymunedau ac ati | Tre Ioan | I'w gadarnhau | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau |
| C3 | Gwella problemau maes parcio yn Ysbyty Glangwili. | Lleihau tagfeydd ar y safle ac o'i gwmpas | Bwrdd Iechyd Lleol / Cyngor Sir | I'w gadarnhau | ? | Llai o dagfeydd / cyfrifiadau traffig | 1% | ? | Derbyniwyd cais cynllunio. | ? | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau |
| C6 | Adolygu'r ddarpariaeth parcio a theithio ar gyfer y dref. | Gwella'r gwasanaeth a chynyddu'r defnydd | Cyngor Sir / Partneriaid | I'w gadarnhau | ? | Data defnydd / data monitro | 0.5% | ? | ? | ? | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau |
| C7 | Cyflwyno terfyn cyflymder 20 milltir yr awr yn y dref (yn rhan amser o bosibl) | Lleihau allyriadau, gwella diogelwch ar y ffyrdd, llai o dagfeydd, annog cerdded, gwella iechyd | Cyngor Sir | 2018 | I'w gadarnhau | Data monitro | 1% | Cyflwynwyd parthau 20 milltir yr awr o amgylch ysgolion ac ardaloedd siopa | Gweithredwyd parth 20 milltir yr awr ar gyfer Ysgol Tre Ioan (prosiect monitro ysgol ar waith) | ? | Rhy gynnar i ganfod gostyngiad mewn allyriadau |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C 13 | Adolygu pedestreiddio ar draws y dref, a'i ymestyn. | Gwella lle y bo'n bosibl a lleihau allyriadau | Cyngor Sir | I'w gadarnhau | ? | Cwmpas ardal | ? | Dim | Dim | ? | |
| C 14 | Asesu'r defnydd estynedig o fws siopwyr Tesco. | Lleihau teithiau cerbydau | Cyngor Sir / Tesco | 2018 | ? | Nifer y teithiau / defnydd o deithiau | 0.1% | Cysylltu â Tesco | Dim | ? | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau |
| | | | | | | | | | | | |
| C2 | Hyrwyddo'r defnydd o ffordd osgoi Caerfyrddin drwy adnoddau cyfryngol. | Lleihau nifer y cerbydau sy'n teithio drwy'r dref yn ddiangen | Cyngor Sir | I'w gadarnhau | ? | Cyfrifiadau traffig | 0.5% | Dim | Dim | ? | |
| C4 | Gosod arwyddion Ardal Rheoli Ansawdd Aer (awgrymu ffyrdd amgen?). | Lleihau nifer y cerbydau sy'n teithio drwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn ddiangen | Cyngor Sir / Asiant Cefnffyrdd De Cymru / Llywodraeth Cymru | 2018–19 | ? | Cyfrifiadau traffig | 1% | Dim | Dim | ? | Gallai gwelliannau gael eu canfod drwy ganlyniadau monitro |
| C5 | Asesu effeithiau cadarnhaol/negyddol Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin pan fydd wedi agor. | Lleihau tagfeydd, gwella llif traffig, lleihau allyriadau | Cyngor Sir | I'w gadarnhau | ? | Cyfrifiadau traffig / data monitro | 3% | Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin wedi'i chwblhau yn rhannol | ? | ? | |
| | | | | | | | | | | | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C8 | Hyrwyddo mwy o rannu ceir / meysydd parcio penodol (cynnwys archfarchnadoedd?) | Llai o deithiau cerbydau | Cyngor Sir / Partneriaid | I'w gadarnhau | ? | Defnydd o leoedd rhannu ceir? | 0.1% | Dim | Dim | ? | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau |
| C 12 | Asesu'r defnydd o dwmpathau cyflymder ffug sydd wedi'u paentio ar ffyrdd. | Lleihau cyflymder ac allyriadau | Cyngor Sir | I'w gadarnhau | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau (gallai gynyddu allyriadau) |
| C 11 | Archwilio cynllun llogi beiciau ar gyfer y dref. | Lleihau teithiau cerbydau | Cyngor Sir / Partneriaid | 2018–19 | I'w gadarnhau | Defnydd o logi beiciau | 0.1% | Dim | Dim | ? | Amhosibl canfod gostyngiad mewn allyriadau |
| | | | | | | | | | | | |
| C 10 | Cyflwyno bysiau trydan/allyriadau isel a chyflwyno bysiau llai ar amseroedd tawel. | Lleihau allyriadau | Cyngor Sir / Gweithredwyr Bysiau | I'w gadarnhau | ? | Newid fflyd fysiau | 1% | Dim | Dim | ? | Anodd canfod gostyngiad mewn allyriadau |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C9 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cynllun pont Tre Ioan. | Lleihau tagfeydd traffig ac allyriadau ar Heol Llansteffan, a lliniaru tagfeydd ar lwybrau cysylltiedig | Cyngor Sir / Asiant Cefnffyrdd De Cymru / Llywodraeth Cymru | I'w gadarnhau | ? | Cyfrifiadau traffig / data monitro | 2% | ? | ? | ? | |
| | | | | | | | | | | | |
| | **LLANELLI** | | | | | | | | | | |
| L1 | Asesu trefn goleuadau traffig ar gyfer cyffordd Stryd Thomas / Gelli Onn. | Tagfeydd wedi'u lleihau / symud | Cyngor Sir | 2017 | ? | Cyfrifiadau traffig / data monitro | 5% | Monitro ar waith er mwyn helpu i lywio dosrannu ffynhonnell | Prosiect monitro dangosol amser real ar y cyd â Phrifysgol Abertawe | ? | Mae'r prosiect hwn yn ffurfio rhan o gydweithrediad ehangach â Phrifysgol Abertawe ar ymyriadau cynllunio gweithredu |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L5 | Cyflwyno terfyn cyflymder 20 milltir yr awr yn y dref (yn rhan amser o bosibl) | Lleihau allyriadau, gwella diogelwch ar y ffyrdd, llai o dagfeydd, annog cerdded, gwella iechyd | Cyngor Sir | ? | ? | Data monitro | 1% | Cyflwynwyd parthau 20 milltir yr awr o amgylch ysgolion a rhai ardaloedd eraill(?) | **I'w gadarnhau** | ? | Rhy gynnar i ganfod gostyngiad mewn allyriadau |
| L9 | Gwella cysylltedd llwybr cerdded / llwybr beicio ar gyfer ardal Heol y Sandy. | Darparu dewis amgen i daith car | Cyngor Sir | ? | ? | Y defnydd o lwybrau beicio drwy beiriant cyfrif | 0.1% | Cais grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – dyfarnwyd. | | ? | Amhosibl adnabod gostyngiad mewn allyriadau |
| L10 | Penderfynu ar effeithiau / cyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiad Coleg y Graig. | Llif traffig, tagfeydd, llygredd | Cyngor Sir / Campws y Graig | ? | ? | Newidiadau mewn llif traffig, tagfeydd | ? | Dim | Cynllunio adolygiad | ? | |
| L11 | Penderfynu ar gyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiad y Pentref Llesiant. | Teithio cynaliadwy, cynllunio teithio, gwefru cerbyd trydanol ac ati | Cyngor Sir / Partneriaid | ? | ? | Gweithredu opsiynau teithio amgen | ? | ? | ? | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L12 | Asesu'r effaith bosibl sy'n deillio o ddatblygu Parc Howard. | Sicrhau'r effeithiau lleiaf | Cyngor Sir | 2017 | 2017–18 | Canlyniadau monitro | Ddim yn berthnasol | Cwblhawyd Asesiad Ansawdd Aer – nodwyd effaith ddibwys | Ymateb i ymgynghoriad cynllunio | | |
| | | | | | | | | | | | |
| L3 | Gosod arwyddion Ardal Rheoli Ansawdd Aer (awgrymu ffyrdd amgen?). | Lleihau'r nifer o gerbydau sy'n teithio drwy'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn ddiangen | Cyngor Sir / Asiant Cefnffyrdd De Cymru / Llywodraeth Cymru | 2018–19 | ? | Cyfrifiadau traffig | 1% | Dim | Dim | ? | Efallai y bydd gwelliannau'n cael eu nodi drwy ganlyniadau monitro |
| L4 | Hyrwyddo'r defnydd o ffordd yr arfordir drwy adnoddau cyfryngol. | Lleihau nifer y cerbydau sy'n teithio drwy'r dref yn ddiangen | Cyngor Sir | I'w gadarnhau | ? | Cyfrifiadau traffig | 0.5% | Dim | Dim | ? | |
| L6 | Adolygu'r ddarpariaeth parcio a theithio ar gyfer y dref. | Gwella'r gwasanaeth a chynyddu'r defnydd | Cyngor Sir / Partneriaid | I'w gadarnhau | ? | Data defnydd / data monitro | 0.5% | ? | ? | ? | Amhosibl adnabod gostyngiad mewn allyriadau |
| L7 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailagor Stryd y Bont. | Lleihau tagfeydd | Cyngor Sir | 2018 | ? | Ddim yn berthnasol | ? | Dim | Dim | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L8 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ffordd osgoi ar gyfer Heol y Sandy. | Lleihau tagfeydd | Cyngor Sir | 2018 | ? | Ddim yn berthnasol | ? | Dim | Dim | ? | |
| L16 | Asesu parcio yn Ysgol Pentip ac o'i chwmpas. | Lleihau tagfeydd, gwella diogelwch ar y ffyrdd | Cyngor Sir | 2018 | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |
| L17 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cyfyngiadau pwysau a chyflymder ar Heol Pen-bre. | Lleihau allyriadau, gwella diogelwch ar y ffyrdd | Cyngor Sir | 2019 | ? | Canlyniadau monitro | 0.5% | Dim | Dim | ? | Heol Pen-bre ddim yn cael ei monitro ar hyn o bryd |
| L18 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer creu cylchfan ar gyffordd Felinfoel / Stryd Thomas / Hen Heol. | Gwella llif traffig a lleihau allyriadau | Cyngor Sir | 2019 | ? | Canlyniadau monitro | ? | Dim | Dim | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L21 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer creu system un ffordd ar gyfer Heol y Sandy gyda llif traffig o'r gorllewin yn unig ar hyd Heol y Sandy a llif traffig o'r dwyrain yn defnyddio Heol Pibydd y Dorlan oddi ar gylchfan y Sandy ac ailymuno ger cylchfan Parc Dŵr y Sandy. | Lleihau tagfeydd, lleihau allyriadau a gwella diogelwch ar y ffyrdd | Cyngor Sir | 2019 | ? | Cyfrifiadau traffig a chanlyniadau monitro | ? | Dim | Dim | ? | |
| | | | | | | | | | | | |
| L2 | Gweithredu arolwg traffig ar gyfer Llangennech / Dafen / Stryd Thomas i sefydlu pam fod y llwybr hwnnw'n cael ei ddefnyddio. | Deall arferion gyrwyr / dewis llwybr | Cyngor Sir | ? | ? | Canlyniadau'r arolwg | 0% | ? | Dim | ? | Casglu gwybodaeth i helpu i lywio ymyriadau posibl eraill |
| L13 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cau'r gyffordd droi o Heol Felinfoel i Hen Heol. | Lleihau tagfeydd ac allyriadau a gwella diogelwch ar y ffyrdd | Cyngor Sir | ? | ? | Canlyniadau monitro | 1–2% | Dim | Dim | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L14 | Nodi ac adolygu amseriadau dosbarthu cerbydau nwyddau trwm i fusnesau yng nghanol y dref ac o'i chwmpas. | Lleihau tagfeydd ac allyriadau | Cyngor Sir / Partneriaid | ? | ? | Cyfrifiadau traffig / canlyniadau monitro o bosibl | ? | Dim | Dim | ? | |
| L19 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer creu adran unffordd o Hen Heol rhwng Thomas Arms a'r Clwb Bowlio. (Dolen i L13) | Lleihau tagfeydd ac allyriadau a gwella diogelwch ar y ffyrdd | Cyngor Sir | ? | ? | Canlyniadau monitro a chyfrifiadau traffig | 1% | Dim | Dim | ? | |
| L20 | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer defnyddio Coedlan Parc y Strade ar gyfer amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn unig. | Lleihau tagfeydd ar Heol y Sandy a'r ardal | Cyngor Sir | ? | ? | Cyfrifiadau traffig a chanlyniadau monitro | 0.5% | Dim | Dim | ? | |
| | | | | | | | | | | | |
| L15 | Adolygu/gwella'r arwyddion at yr M4 (dolen i L3), nodi llwybrau a ffefrir drwy'r dref. | Lleihau tagfeydd | Cyngor Sir / Asiant Cefnffyrdd De Cymru / Llywodraeth Cymru | ? | ? | Cyfrifiadau traffig | ? | Dim | Dim | ? | |
| | **CYFFREDINOL** | | | | | | | | | | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer parthau allyriadau isel. | Lleihau allyriadau | Cyngor Sir / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | ? | ? | Canlyniadau monitro | ? | Dim | Dim | ? | |
| B | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer parthau tagfeydd. | Gwella llif traffig, lleihau allyriadau | Cyngor Sir | ? | ? | Canlyniadau monitro | ? | Dim | Dim | ? | |
| C | Cyflwyno gwaharddiad segura ar gyfer tacsis. | Lleihau allyriadau | Cyngor Sir | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |
| D | Gweithredu gwaharddiad segura y tu allan i ysgolion ac ati. | Lleihau allyriadau | Cyngor Sir | 2018 | ? | ? | ? | Ymholiadau'n cael eu gwneud (awgrymwyd fel dull gweithredu Cymru gyfan drwy ymgynghoriad Llywodraeth Cymru) | - | ? | |
| E | Cyflwyno canllawiau cynllunio atodol (e.e. darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydanol (– pa feini prawf?). | Lleihau allyriadau | Cyngor Sir | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F | Ymgysylltu â darparwyr llywio â lloeren i dynnu sylw at Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer | Lleihau allyriadau a gwella tagfeydd | Cyngor Sir / Llywodraeth Cymru | 2016 | Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori | | ? | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru / Fforwm Ansawdd Aer Cymru | Cyflwynwyd ym mholisi ansawdd aer Llywodraeth Cymru | ? | |
| G | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer system negeseuon sy'n rhybuddio o waith ar y ffyrdd a allai gynyddu lefelau llygredd dros gyfnodau byr. | Amddiffyn iechyd ar lefel leol iawn | Cyngor Sir / Partneriaid | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |
| H | Cyflwyno camerâu ffug i gynorthwyo tawelu traffig. (O bosibl yn fyw yn rhan amser ar sail gylchdro?) | Newid i ymddygiad i leihau allyriadau a gwella diogelwch ar y ffyrdd | Cyngor Sir / Partneriaid | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llwybrau cerdded gyda defnydd a rennir. (gyda marciau?) | Cynyddu'r defnydd o ddulliau teithio amgen | Cyngor Sir | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |
| J | Hysbysebu llwybrau beicio. | Trafnidiaeth amgen | Cyngor Sir | ? | Eisoes yn cael ei wneud | Peiriannau cyfrif llwybr beicio | ? | Yn parhau | Llwybrau amrywiol wedi'u cyflwyno | ? | Amhosibl i'w benderfynu |
| K | Hysbysebu swyddfeydd sydd â chyfleusterau ar gyfer beicwyr. (Cynyddu nifer y swyddfeydd/adeiladau sy'n darparu storio diogel ar gyfer beiciau) | Annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth amgen | Cyngor Sir | ? | ? | Defnydd o gyfleusterau | ? | Dim | Dim | ? | |
| L | Cynhyrchu a dosbarthu sticeri ceir gyda negeseuon (e.e. – diffoddwch yr injan pan fyddwch wedi parcio / mae'r cerbyd yn segura, arafwch, ystyriwch ansawdd aer, cadwch yn ôl rhag y car o'ch blaen). | ? | Cyngor Sir | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |

| Rhif | Mesur | Ffocws | Awdurdod Arweiniol | Cam Cynllunio | Cam Gweithredu | Dangosydd | Targed Lleihau Allyriadau Blynyddol yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Cynnydd Hyd yn Hyn | Cynnydd yn Ystod y 12 Mis Diwethaf | Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig | Sylwadau sy'n Ymwneud â Lleihau Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | Gwiriwch fapiau/gwefannau llwybr twristiaid ar gyfer llwybrau a gynghorir (dylech osgoi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer lle y bo'n berthnasol) | Llwybrau teithio priodol yn cael eu defnyddio | Cyngor Sir / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |
| N | Adolygu a gwella amseriadau casglu biniau a sgubo ffyrdd | Gwella tagfeydd | Cyngor Sir | ? | ? | ? | ? | Dim | Dim | ? | |
| O | Astudiaeth ddichonoldeb o wneud trefi a phentrefi yn rhydd rhag cerbydau. | Lleihau allyriadau | Cyngor Sir | ? | ? | Monitro | ? | Dim | Dim | ? | |
| E/32266 | Cam 2 Ffordd Gyswllt Cross Hands | Asesiad Ansawdd Aer Cwblhawyd arolwg monitro amser real | Effaith ecolegol bosibl | Rhoddwyd caniatâd<br><br>Gwaith yn mynd rhagddo | Derbyniwyd y cynllun lliniaru llwch Ymarfer sgrinio $NO_2$ ar lwybrau presennol |
| W/35450 | Ysgol Gynradd Talacharn | Cyfiawnhad dros beidio â chynnal Asesiad Ansawdd Aer | Asesiad Ansawdd Aer yn nodi effaith ddibwys Cynllun rheoli llwch | Gwrthodwyd caniatâd cynllunio amlinellol | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Asesiad llwch | | | |
| S/35541 | Plasty, Parc Howard | Asesiad Ansawdd Aer | Asesiad Ansawdd Aer yn nodi effaith ddibwys Amod mesurau lliniaru | Yn aros am benderfyniad | Cynhaliwyd dadansoddiad cost y difrod a chynigiwyd mesurau lliniaru |
| W/35730 | Hen Gartref Tawelan, Llwyn Onn | Asesiad Ansawdd Aer | Effaith ddibwys | Gwrthodwyd yn llawn | |
| W/35903 | Tir oddi ar Luest y Bryn, Caerfyrddin | Asesiad Ansawdd Aer | Effaith ddibwys | Yn aros am benderfyniad ar yr amlinelliad | |
| W/36307 | Tir ger The Paddocks, Foelgastell | Gwahanu gofodol o gefnffordd yr A48 | Effaith ddibwys | Yn aros am benderfyniad | |
| S/36380 | Tir yng Ngarreglwyd, Pen-bre | Ystyried seilwaith cerbydau trydanol | Effaith ddibwys | Rhoddwyd caniatâd | |
| W/36350 | Ysbyty Cyffredinol Glangwili | | Nid oes angen cyfiawnhad dros beidio â chynnal Asesiad Ansawdd Aer | Rhoddwyd caniatâd | Gweithio gyda grŵp cynllun gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin |
| S/36465 | Tir ger Ystad Dai Dylan, Llanelli | Ystyried seilwaith cerbydau trydanol | Effaith ddibwys | Yn aros am benderfyniad | |
| S/36519 | The Maltings, Llanelli (cyn fragdy) | Ystyried seilwaith cerbydau trydanol | Effaith ddibwys | Rhoddwyd caniatâd | Gwaith wedi dechrau |

## 3.4 Ffynonellau Eraill

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi unrhyw goelcerthi, digwyddiadau llygredd neu losgi coed domestig a allai arwain at lygredd aer.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd neu sydd newydd eu nodi a allai gael effaith ar ansawdd aer o fewn ardal yr awdurdod lleol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau bod y canlynol wedi cael eu hystyried:

- **Ffynonellau traffig ffyrdd**
- **Ffynonellau trafnidiaeth eraill**
- **Ffynonellau diwydiannol**
- **Ffynonellau masnachol a domestig**
- **Datblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli**

# 4. Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd yn yr Awyr

## 4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol/Ranbarthol

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu Strategaeth Ansawdd Aer Leol benodol. Mae'r gwaith ansawdd aer yn seiliedig ar y strategaethau cenedlaethol ar gyfer monitro ansawdd aer ac mae hwn wedi'i ddefnyddio fel Cynllun Ansawdd Aer y sir. Mae'r gwaith ansawdd aer yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol. Mae dynodi'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Llandeilo a sefydlu grwpiau cynllunio gweithredu a llywio wedi helpu i feithrin y cysylltiadau â rhanddeiliaid mewnol.

Mae cael mwy o gysylltiadau mewnol wedi helpu i godi proffil gwaith ansawdd aer fel bod mwy o gydweithredu rhwng adrannau yn arwain at well cyfathrebu a threfniadau gweithio.

Datblygwyd dogfen ranbarthol rhwng Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro yn 2011–12 a oedd wedi'i hanelu at ddatblygwyr a chynllunwyr i ddarparu canllawiau ar safbwynt ansawdd aer ar ddatblygiadau newydd. Roedd y ddogfen yn seiliedig yn bennaf ar ddogfen ganllaw Environmental Protection UK "Development Control: Planning for Air Quality (2010 Update)". Cafodd y ddogfen ganllaw gydweithredol ei hysgrifennu a'i chytuno rhwng y pedwar awdurdod a'i chyhoeddi ym mis Medi 2012. Fe'i gwnaed ar gael i adrannau cynllunio pob awdurdod ac fe'i defnyddiwyd i gynorthwyo gydag ymgynghoriadau cynllunio. Teitl y ddogfen yw "Mid and West Wales, Air Quality: A Guide for Developers".

Ers yr adolygiad o ddogfen EPUK 2010 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015 ac yn fwy diweddar ym mis Ionawr 2017), cytunwyd rhwng y pedwar awdurdod y byddai dogfen 2017 yn ffurfio sail y Strategaeth Ranbarthol. Fel rhan o'r gwaith cynllunio gweithredu, rydym yn edrych ar ddatblygu strategaethau lleol y gellir eu cymhwyso i ddatblygu gyda'r prif nod o leihau effeithiau ansawdd aer o ddatblygiadau lle bynnag y bo modd.

Drwy gyflawni ein swyddogaethau o dan Ran IV Deddf 1995, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r canllawiau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru', ac mae'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn Neddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu mabwysiadu wrth gyflawni ein swyddogaethau i reoli ansawdd aer lleol.

## 4.2 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin ei fabwysiadu gan y cyngor sir ar 10 Rhagfyr 2014.

Er y dylai cynigion datblygu gael eu hystyried yn ôl polisïau a darpariaethau'r cynllun yn gyfangwbl (ynghyd ag ystyriaethau a pholisïau perthnasol eraill), y polisi Cynllun Datblygu Lleol mwyaf nodedig o ran ansawdd aer yw EP2: Llygredd – a amlinellir isod:

### Polisi EP2 Llygredd

**Lle bynnag y bo modd, dylai cynigion ar gyfer datblygiadau geisio cyfyngu ar effeithiau llygredd. Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ddangos:**

**a) Nad ydynt yn gwrthdaro ag amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol neu'n cael effaith andwyol i raddau arwyddocaol ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer dynodedig (mae'n bosibl y gosodir amodau ar ddatblygiadau a ganiateir i gydymffurfio â'r arferion gorau);**
**b) Nad ydynt yn achosi dirywiad o ran ansawdd dŵr;**
**c) Eu bod yn sicrhau y cyfyngir ar lygredd golau a sŵn, lle bo'n briodol;**
**d) Eu bod yn sicrhau yr ymdrinnir â pheryglon sy'n codi o dir halogedig trwy archwiliad tir ac asesiad risg priodol a gwaith adfer tir er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r defnydd arfaethedig.**

| **Amcanion Strategol a Gefnogir:** AS4, AS5, AS10 ac AS11 |
|---|
| *Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd gyda pholisïau a chynigion perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol hwn.* |

Mae Gorchmynion Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Caerfyrddin a Llanelli wedi cael eu llofnodi ac mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu. Fel rhan o'r gwaith cynllun gweithredu, mae trafodaethau'n parhau o ran pa gyfleoedd sydd ar gael i ddiweddaru'r testun atodol i Bolisi EP2 (paragraff 6.8.21) a chofleidio polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru ar ansawdd aer.

Dylid nodi bod canllawiau clir ar amrediad o faterion diogelu'r amgylchedd wedi'u cynnwys o fewn Polisi Cynllunio Cymru, yn arbennig mewn perthynas ag effaith datblygu ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a lleihau llygredd aer a dŵr. Nid yw'r rhain felly'n cael eu hadrodd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gellir dod o hyd i ddatganiadau polisi rheoli datblygu cenedlaethol ychwanegol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

## 4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol

Yn hanesyddol, roedd gan yr awdurdod Gynllun Trafnidiaeth Lleol; fodd bynnag, cafodd hwn ei ymgorffori'n Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a sefydlwyd o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhanbarth yn cwmpasu awdurdodau unedol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Enw torfol yr awdurdodau oedd Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH).

Nid yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, fel y'i cyhoeddwyd gan SWWITCH, bellach yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd ers i'r cyllid ar gyfer y consortiwm gael ei ddileu. Disgwylir bellach y bydd y cynlluniau trafnidiaeth lleol yn cael eu datblygu ond bydd yn dal yn rhaid cael ystyriaeth briodol i'r canllawiau trafnidiaeth rhanbarthol.

Fodd bynnag, mae'r trefniant partneriaeth gyda'r awdurdodau eraill yn dal ar waith ac maent wedi datblygu cynllun trafnidiaeth lleol cyfunol ar gyfer Dinas Ranbarth Bae Abertawe yn cwmpasu'r cyfnod 2015 – 2020.

Mae'r gwaith rheoli ansawdd aer lleol a oedd yn cyfrannu at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bellach wedi'i drosglwyddo a rhoddir ystyriaeth briodol iddo o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a’r ymyriadau polisi a seilwaith, sy’n cael eu teilwra i helpu i wella ansawdd aer a lleihau llygredd aer o ffynonellau cludiant.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y Cynllun Trafnidiaeth Lleol gan ddefnyddio'r ddolen isod.
https://www.abertawe.gov.uk/Cynlluntrafnidiaethlleol
Cyfeirir hefyd at hyn yn Strategaeth Barcio Sir Gaerfyrddin 2018, y gellir dod o hyd iddi yma:
http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/documents/s20624/Adroddiad.pdf?LLL=1

## 4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol

Cydnabyddir mai $NO_2$ o draffig ffyrdd yw'r prif destun pryder ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Felly dylid croesawu unrhyw fesurau sy'n gallu annog a hwyluso dulliau trafnidiaeth amgen. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i nodi a gwella llwybrau cerdded a beicio, sy'n cynnwys cyhoeddi mapiau i nodi llwybrau addas, a hefyd i ddarparu cysylltiadau â lleoliadau allweddol, megis mannau gwaith, addysg ac ati.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi ei fapiau rhwydwaith integredig, a gellir dod o hyd iddynt yma: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.XGWBuFz7TIU

Mae hyn yn cyd-fynd â nod hirdymor y cyngor o ddod yn "hwb beicio Cymru". Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am strategaeth feicio Sir Gaerfyrddin yma: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/twristiaeth/blaenoriaethau-twristiaeth/beicio/#.XGWCO1z7TIU

## 4.5 Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2018 – 2023 Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ei hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod. Gall ansawdd aer effeithio ar nifer o'r 15 amcan a nodwyd, ond mae Amcan Llesiant 8, "Byw'n Dda – Helpu pobl i fyw bywydau iach" yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu, y mae un ohonynt yn ymwneud yn benodol â monitro ansawdd aer (nitrogen deuocsid).

Rydym yn olrhain cynnydd ar y cam gweithredu hwn drwy adroddiadau monitro perfformiad chwarterol.

## 4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau a strategaethau seilwaith gwyrdd a fydd yn effeithio ar ansawdd aer o fewn Sir Gaerfyrddin.

## 4.7 Strategaethau Newid Hinsawdd

Yn dilyn y gwaith a wnaed i ffurfio Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi cynhyrchu Cynllun Llesiant Sir Gâr 2018–2023. Mae hwn yn seiliedig yn bennaf ar y saith nod llesiant a phum ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2018–2023 ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn nodi ei hamcanion llesiant, sy'n ceisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y sir yn barhaus.

Mae nifer o fesurau a gynhwysir o fewn y strategaeth hon sy'n ymwneud â newid hinsawdd, yn benodol yn gysylltiedig â gweithredu a hyrwyddo'r defnydd cynyddol o ynni adnewyddadwy.

# 5. Casgliadau a Chamau Gweithredu Arfaethedig

## 5.1 Casgliadau o Ddata Monitro Newydd

Nodwyd cyfanswm o bedwar gormodiant o'r Amcan Ansawdd Aer Blynyddol ar gyfer $NO_2$ yn 2017, ac mae'r cyfan wedi'u lleoli o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Mae gwaith monitro estynedig yn nhrefi Caerfyrddin a Llanelli wedi cadarnhau gormodiant parhaus i'r amcan ansawdd aer mewn ardaloedd â phroblem, gan gyfiawnhau'r angen dros ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer y ddwy dref.

Y ddau safle yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli a oedd yn fwy na'r amcan ansawdd aer oedd Stryd Thomas (Barnardos) (DAL/09) gyda chrynodiad o 45.5µg/$m^3$ a ger 13 Heol Felinfoel (DAL/07), a wnaeth adrodd crynodiad o 43.7µg/$m^3$ (ar ôl cyfrifo'r pellter gostyngiad $NO_2$). Mae'r ddau safle hyn wedi bod yn fwy na'r amcan ansawdd aer ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.

Roedd un lleoliad yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin yn fwy na'r amcan ansawdd aer a dyma'r darlleniad uchaf yn y sir ar gyfer y chweched flwyddyn yn olynol, sef 85 Heol y Prior (dwyrain) (DAC/08). Roedd y crynodiad blynyddol yn 53.6µg/$m^3$ ar ôl cyfrifo'r pellter gostyngiad $NO_2$, sy'n is na'r llynedd, sef 61.9 µg/$m^3$.

Mae gan Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo hefyd un safle, 123 Stryd Rhosmaen (DA/09), a wnaeth dorri'r amcan ansawdd aer gyda 42µg/$m^3$, ac mae wedi bod yn fwy na'r amcan ansawdd aer am y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer o safleoedd yn parhau ar y ffin a bydd angen monitro a gwaith pellach i sicrhau nad yw'r lefelau $NO_2$ yn fwy na'r amcan ansawdd aer.

Nid yw holl ardaloedd eraill y sir lle y mae gwaith monitro tiwb tryledaid yn cael ei gyflawni wedi nodi unrhyw ardaloedd gormodiant eraill. Fodd bynnag, mae nifer o safleoedd yn parhau ar y ffin a bydd gwaith monitro yn parhau ar gyfer y lleoliadau hyn gan fod gwaith datblygu yn cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 5.2 Casgliadau yn Ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd

Mae gwaith yn parhau ar nifer o safleoedd datblygu newydd ar draws y sir yr adroddwyd amdanynt eisoes, ond hyd yn hyn nid oes unrhyw effeithiau ar ansawdd

aer wedi cael eu nodi. Mae Cross Hands yn bwrw ati gyda rhai o'r cynigion datblygu yn mynd rhagddynt yn gyflym, tra bo eraill heb ddechrau eto. Mae elfennau o Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin wedi cael eu cwblhau ond mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd ar y prosiect yn gyffredinol ac nid oes unrhyw amserlen ar gyfer cwblhau wedi'i phennu eto yn sgil oedi wrth brynu darnau o dir sy'n weddill. Mae Cam 1 datblygiad Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands wedi cael ei gwblhau ac mae'n gweithredu'n dda, ac mae Cam 2 yn profi cynnydd da gyda'r nod o gwblhau’r gwaith yn 2019. Bydd y ffordd yn agor Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands i fyny, gan fod o fudd i'r seilwaith presennol ac yn gwella llifau traffig.

## 5.3 Casgliadau Eraill

Cafodd y gwaith o weithredu mesurau a gynhwysir o fewn Cam 1 Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo ei adolygu a daeth i'r casgliad eto ei fod yn anodd penderfynu a fu unrhyw effaith gadarnhaol ar leihau'r lefelau nitrogen deuocsid ar hyd Stryd Rhosmaen. Yn sicr, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw ymyrraeth unigol wedi gwneud unrhyw wahaniaeth y gellir ei ganfod. Bydd mesurau a geir yng Ngham 2 y cynllun gweithredu yn cael eu hystyried yn 2018–19.

Er nad oes unrhyw strategaeth ansawdd aer 'ffurfiol' yn bodoli, mae'r defnydd o ddogfen ganllaw Environmental Protection UK wedi cynyddu a chytunwyd ar ddiweddaru'r strategaeth ranbarthol a ddatblygwyd.

Er nad yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bellach yn bodoli, mae nifer o'r elfennau a oedd o fewn y cynllun wedi cael eu hymgorffori yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd i Dde-orllewin Cymru, sy'n ymgorffori'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol ac wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill ar draws y rhanbarth. Mae'r cynllun yn cydnabod yr effeithiau posibl oddi wrth ffynonellau trafnidiaeth ac mae'n cael ei adolygu wrth i fwy o ddata a gwybodaeth am ansawdd aer ar draws y rhanbarth yn dod ar gael. Mae gweledigaeth Sir Gaerfyrddin o fod yn hwb beicio i Gymru yn parhau i fynd rhagddo gyda gwaith i ailddatblygu Felodrom Caerfyrddin a Chylchffordd Gaeedig Pen-bre bellach wedi'i gwblhau ac yn ymddangos yn boblogaidd. Mae llwybr beicio Dyffryn Tywi hefyd yn parhau i fynd rhagddo.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu a'i ddiweddaru, gan gyfeirio'n benodol at ansawdd aer a'r angen i roi ystyriaeth briodol i effeithiau ansawdd aer datblygiadau. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn cyfeirio at ganllawiau a pholisi cenedlaethol yn gysylltiedig ag ansawdd aer a gafodd eu hymgorffori o fewn polisïau cynllunio Cymru. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal i ddiweddaru'r cynllun i ymgorffori'r canllawiau polisi diweddaraf a sicrhau bod effeithiau ar ansawdd aer yn cael eu lleihau. Gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin ymateb gyda'i sylwadau ar ymgynghoriad Polisi Cynllunio Cymru a ddaeth i ben ym mis Mai 2018.

Mae Cam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands ar hyn o bryd o dan adolygiad yn sgil ei agosatrwydd at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'r effaith bosibl o allyriadau cerbydau yn cael ei hasesu. Er nad yw'n hollol o fewn cylch gwaith Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyfannol ac ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, ystyriwyd ei fod yn synhwyrol adrodd am ganlyniadau'r gwaith. Mae gwaith monitro $NO_2$ yn yr ardal yn parhau.

Gwnaeth gwaith monitro sylffwr deuocsid yng ngorsaf Rheilffordd Gwili nodi cydymffurfiaeth â'r gorchymyn gwaith o ran injans stêm yn segura yn ystod dau allan o'r tri ymweliad cydymffurfiaeth ar wahân a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid arsylwyd ar unrhyw allyriadau mwg tywyll yn ystod adegau'r ymweliadau.

## 5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig

Ni fu unrhyw ofyniad i gynnal asesiad/archwiliad pellach ar gyfer unrhyw lygrydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid oes angen datgan unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd.

Bydd y gwaith monitro tiwbiau tryledu yn Llandeilo yn parhau ac mae'r pum opsiwn ymyrraeth sy'n weddill yng Ngham 1 y cynllun gweithredu wedi cael eu hasesu a, lle bo modd, bydd gwaith gweithredu yn dechrau. Bydd gwaith yn dechrau ar weithredu (lle y bo'n bosibl) opsiynau ymyrraeth Cam 2.

Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu ar gyfer trefi Caerfyrddin a Llanelli.

Bydd yr awdurdod yn parhau i wirio cydymffurfiaeth â'r amseroedd segura injan stêm yng
ngorsaf Rheilffordd Gwili ym Mronwydd drwy ymweliadau heb rybudd.

Mae'r awdurdod, gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill, wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n gweithio ar y cyd â Sir Benfro a Cheredigion i asesu a datblygu Cynlluniau Llesiant a fydd yn gweithio tuag at y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd y gwaith Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn cael ei adrodd a gobeithir y bydd yn helpu i godi proffil effeithiau iechyd o ansawdd aer.

Gwnaeth y gwaith monitro nitrogen deuocsid yn un o ysgolion cynradd y sir ddechrau ym mis Ionawr 2018, a byddem yn disgwyl adrodd ar unrhyw ganfyddiadau yn ein Hadroddiad Cynnydd ar gyfer 2019.

Bydd gwaith yn dechrau tuag at gwblhau agweddau ar Adroddiad Cynnydd 2019 a bydd yr awdurdod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a desg gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol i gyflawni gwelliannau i ansawdd aer.

# Cyfeiriadau

Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin ar Ansawdd Aer:
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/ansawdd-aer/#.XGaxCVz7TIU

https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=395

http://aqma.defra.gov.uk/action-plans/14.11---llandeilo-aqma-action-plan.pdf

Mapiau ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer: http://lle.gov.wales/map/llygreddawyrol

Asesiad Dichonoldeb Cynllun Gweithredu Llandeilo – Adolygiad o Gamau Gweithredu Cam 1 sy'n Weddill (Mawrth 2018)

Adroddiad Adolygu Sgrinio Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin 2017 (Medi 2018)

Adolygiad Ail Flwyddyn Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 (Mawrth 2017)

Data Cyfrifo Pellter $NO_2$ Cyngor Sir Caerfyrddin (2017) i'w ddefnyddio gydag Adroddiad Cynnydd 2018 (Medi 2018)

Gostyngiad $NO_2$ gyda chyfrifydd pellter gostyngiad (http://laqm.defra.gov.uk/tools-monitoring-data/no2-falloff.html)

Tiwbiau trylediad ar gyfer monitro $NO_2$ amgylchynol: Practical Guidance for Laboratories and Users (February 2008) (AEA Environment & Energy)

Summary of Laboratory Performance in AIR NO2 Proficiency Testing Scheme (April 2016 – February 2018). AIR-PT-Rounds 13 to 24 (Apr 2016 – Feb 2018) (Gwefan llinell gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)

Hysbysiad Penodedig Cwmni Rheilffordd Gwili

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (2014)

Y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd i Dde-orllewin Cymru 2015 – 2020 (2015)

Technical Guidance LAQM TG (09) a (16) (DEFRA)

Tube Precision 2016 version 03-18 Final (gwefan desg gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol)
https://www.abertawe.gov.uk/Cynlluntrafnidiaethlleol

Strategaeth Barcio Sir Gaerfyrddin 2018, y gellir dod o hyd iddi ar:
http://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/documents/s20624/Adroddiad.pdf?LLL=1

Mapiau rhwydwaith integredig Cyngor Sir Caerfyrddin,
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.XGa0SVz7TIU

Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin:
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/twristiaeth/blaenoriaethau-twristiaeth/beicio/#.XGbdxlz7TIU

**Cynllun Llesiant ar gyfer 2018–2023**

**Strategaeth Gorfforaethol 2018–2023**

**Gwefan Aer y DU DEFRA ar gyfer Rhwydweithiau Monitro**

# Atodiadau

Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledu Misol

Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol

Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer

Atodiad D: Mapiau Ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Atodiad E: Adroddiad Data Blynyddol (2017)

Atodiad F: Data Cyfrifydd Pellter Gostyngiad $NO_2$ (2017)

Atodiad G:  Adroddiad Adolygu Sgrinio Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin 2017

Atodiad H: Asesiad Dichonoldeb Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo ar gyfer Opsiynau Cam 1 sy'n Weddill

Atodiad I: Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo (2014)

# Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledriad Misol

## Tabl A.1 – Canlyniadau Tiwbiau Tryledriad Misol Llawn ar gyfer 2017

| Cyfeirnod y Safle | Crynodiadau Cymedr $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | Cymedr Blynyddol | | |
| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Craidd | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (Ffactor) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Datguddiad Agosaf (2) |
| **Rhydaman** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Carm/089** | 53.4 | 39.3 | 31.1 | 27.7 | 28.7 | 16.7 | 18.2 | 17.1 | 25.6 | 28.7 | 48.9 | 31.7 | 30.59 | 23.56 | |
| **Carm/064** | - | 44.4 | 40.2 | 26.0 | 29.1 | 27.1 | *23.6* | *23.6* | 27.6 | 35.2 | 43.2 | 34.3 | 32.21 | 24.80 | |
| **Carm/090** | 47.2 | 43.7 | 44.4 | 31.2 | 29.8 | 33.1 | 26.0 | 26.5 | 32.6 | 39.5 | 45.3 | 33.6 | 36.08 | 27.78 | |
| **Llanelli** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **DAL/20** | 43.9 | 32.4 | 32.2 | 22.2 | 25.3 | 20.6 | 17.8 | 20.0 | 24.0 | - | - | - | 26.49 | 20.40 | |
| **DAL/21** | 29.5 | 20.7 | 17.2 | 11.4 | 11.5 | 9.6 | 8.5 | 8.7 | 12.0 | 14.2 | 21.2 | 14.5 | 14.92 | 11.49 | |
| **DAL/14** | 50.1 | 42.3 | 41.0 | 29.9 | - | 29.3 | - | 24.9 | 30.7 | - | 47.5 | 36.6 | 36.92 | 28.43 | |
| **DAL/15** | 49.3 | 35.7 | 29.8 | 36.6 | 23.3 | 15.4 | 14.9 | 19.7 | 26.8 | 24.3 | 45.3 | 34.4 | 29.63 | 22.81 | |
| **Carm/077** | 71.5 | 68.2 | 62.8 | 45.6 | 49.0 | 43.3 | 35.3 | 40.7 | 42.3 | 58.5 | 62.1 | 41.0 | 51.69 | 39.80 | 30.6 |
| **DAL/22** | 60.3 | 46.7 | 50.1 | 35.8 | 37.6 | 34.5 | 27.5 | 30.9 | 36.1 | 45.9 | 47.6 | 47.2 | 41.68 | 32.10 | |
| **DAL/26** | 46.5 | 39.4 | 32.5 | 30.7 | 25.9 | 14.9 | 16.3 | 18.1 | 25.8 | 26.0 | 42.9 | 29.1 | 29.01 | 22.34 | |
| **DAL/27** | 56.6 | 40.7 | 41.0 | 36.3 | 29.8 | 19.6 | 21.6 | 23.3 | 32.6 | - | 51.2 | - | 35.27 | 27.16 | |
| **DAL/16** | 44.8 | 38.6 | 35.4 | 23.8 | 26.1 | 21.1 | 17.6 | 19.7 | 23.6 | 28.3 | 37.3 | 22.4 | 28.23 | 21.73 | |
| **DAL/17** | 50.1 | 41.6 | 29.3 | 30.9 | 28.7 | 18.4 | 18.9 | 16.7 | 27.2 | 25.4 | 41.5 | 28.6 | 29.78 | 22.93 | |
| **DAL/07** | 86.5 | 74.0 | 55.1 | 60.9 | 57.4 | 51.3 | 43.8 | - | - | 58.0 | 73.8 | 54.6 | 61.54 | **47.39** | **43.7** |
| **DAL/23** | 46.3 | 34.7 | 37.8 | 23.5 | 22.6 | 20.8 | 16.7 | 15.2 | 22.2 | 24.6 | 34.4 | 26.8 | 27.13 | 20.89 | |

| Cyfeirnod y Safle | Crynodiadau Cymedr $NO_2$ (µg/m$^3$) | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Cymedr Blynyddol | | |
| | | | | | | | | | | | | | Data Craidd | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (Ffactor) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Datguddiad Agosaf (2) |
| **DAL/09** | 70.2 | 68.6 | 62.6 | - | 50.4 | 59.1 | 48.9 | 53.6 | 56.7 | 53.7 | 68.4 | 57.2 | 59.04 | **45.46** | **45.5 (f)** |
| **Carm/104** | 64.3 | 50.6 | 59.1 | 45.3 | 44.8 | 37.1 | 31.5 | 34.9 | 38.6 | 42.8 | 64.0 | 46.3 | 46.61 | 35.89 | |
| **DAL/10** | 73.1 | 46.2 | 46.9 | 47.3 | 40.7 | 30.2 | 32.0 | 32.0 | 39.9 | 40.3 | 55.2 | 50.3 | 44.51 | 34.27 | |
| **Carm/069** | 65.1 | 52.3 | 59.6 | 44.2 | 37.7 | 44.2 | 40.9 | 39.0 | 43.1 | 52.2 | 62.2 | 46.0 | 48.88 | 37.63 | 28.4 |
| **DAL/12** | 63.8 | 53.4 | 45.4 | 35.1 | 34.3 | 27.0 | 22.7 | 23.1 | 35.3 | 38.8 | 53.6 | 37.4 | 39.16 | 30.15 | |
| **DAL/04** | 60.2 | 47.3 | 42.7 | 39.9 | 31.4 | 33.2 | 26.2 | 28.5 | 32.8 | 37.9 | 53.2 | 50.3 | 40.30 | 31.03 | |
| **Carm/114** | 55.3 | 57.8 | 57.1 | 40.5 | 34.8 | 40.0 | 33.5 | 32.8 | 33.3 | 45.0 | 66.4 | 49.5 | 45.50 | 35.04 | |
| **Carm/113** | 64.0 | 51.7 | 50.6 | 42.1 | 47.0 | 44.9 | 40.2 | - | 38.1 | 46.7 | 55.3 | 45.2 | 47.80 | 36.81 | 34.8 |
| **Carm/135** | 53.5 | 40.0 | 40.2 | 36.2 | 34.2 | 30.3 | 25.0 | 29.5 | 33.0 | 36.7 | 44.3 | 40.3 | 36.93 | 28.44 | |
| **Carm/138** | 36.8 | 25.2 | 20.9 | 13.7 | 13.0 | 10.4 | 10.4 | 10.7 | 16.3 | 16.1 | 26.2 | 21.7 | 18.45 | 14.21 | |
| **Carm/141** | - | 45.1 | 46.4 | 36.4 | 32.0 | 33.1 | - | 30.0 | 32.9 | 39.9 | 50.4 | 43.6 | 38.98 | 30.01 | |
| **Caerfyrddin** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **DAC/06** | 54.4 | 50.0 | 46.4 | 33.5 | 35.5 | 29.8 | 28.8 | 28.6 | 33.9 | 40.5 | 50.9 | 42.2 | 39.54 | 30.45 | |
| **DAC/13** | 55.1 | 45.8 | 51.5 | 40.0 | 35.5 | 36.0 | 26.8 | 33.5 | 36.9 | 45.2 | 55.9 | 53.9 | 43.01 | 33.12 | |
| **Carm/109** | 54.0 | 59.2 | 50.7 | 37.9 | 45.3 | 39.8 | 35.4 | 34.2 | 40.9 | - | 62.0 | 51.5 | 46.45 | 35.76 | 34.4 |
| **DAC/08** | 77.5 | 78.2 | 84.2 | 75.9 | 65.2 | 65.3 | 60.1 | 59.0 | - | 74.3 | 100.3 | 73.5 | 73.95 | **56.95** | **53.6** |
| **DAC/14** | 48.4 | 56.6 | 59.7 | 40.6 | 33.7 | 25.8 | 37.8 | 39.1 | 41.2 | - | 58.3 | 44.7 | 44.17 | 34.01 | |
| **DAC/15** | 48.8 | 44.0 | 51.4 | 33.7 | 31.3 | 36.3 | 31.1 | 32.3 | 34.3 | 40.4 | 48.6 | 39.4 | 39.30 | 30.26 | |
| **Carm/111** | 57.8 | 51.8 | 52.0 | 30.7 | 36.0 | 37.0 | 32.3 | 33.0 | 36.5 | 46.2 | 51.8 | 40.1 | 42.10 | 32.42 | |
| **DAC/12** | 57.2 | 50.2 | 51.5 | 43.9 | 39.4 | 34.6 | 34.0 | 32.6 | 36.6 | 42.8 | 61.1 | 48.9 | 44.40 | 34.19 | |
| **DAC/04** | 35.4 | 37.4 | 27.3 | 27.8 | 23.7 | 17.8 | 20.5 | 21.1 | 25.3 | 26.3 | 42.4 | 30.9 | 27.99 | 21.55 | |
| **Carm/072** | 49.0 | 47.3 | 47.4 | 38.2 | 34.0 | 34.7 | 31.0 | 31.4 | 37.1 | 44.3 | 29.8 | 42.7 | 38.91 | 29.96 | |

| Cyfeirnod y Safle | Crynodiadau Cymedr $NO_2$ (µg/m$^3$) | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | Cymedr Blynyddol | | |
| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Craidd | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (Ffactor) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Datguddiad Agosaf (2) |
| **DAC/02** | 59.5 | 73.9 | 68.3 | 44.2 | 43.2 | 43.6 | 41.3 | 39.0 | 49.7 | 61.4 | 64.8 | 56.0 | 53.74 | **41.38** | 39.0 |
| **DAC/16** | 61.6 | 61.2 | 61.8 | 35.8 | 47.9 | 41.2 | 36.8 | 36.4 | 41.2 | - | 57.6 | 49.6 | 48.28 | 37.18 | 37.2 (f) |
| **Carm/001** | 52.4 | 47.9 | 45.8 | 39.3 | 35.1 | 29.3 | 27.3 | 29.1 | 38.0 | 43.2 | 59.6 | 50.5 | 41.46 | 31.92 | |
| **Carm/084** | 58.4 | 50.2 | 45.7 | 40.0 | 41.5 | 37.8 | 31.0 | 28.0 | 37.2 | 44.3 | 55.2 | 46.4 | 42.98 | 33.09 | |
| **DAC/05** | 62.9 | 55.3 | 50.5 | 39.0 | 34.0 | 28.1 | 28.2 | 32.7 | 37.9 | 46.3 | 59.7 | 38.8 | 42.78 | 32.94 | |
| **Carm/106** | 61.4 | 58.7 | 55.2 | 45.1 | 40.6 | 41.1 | 34.5 | 37.4 | 44.2 | 51.1 | 68.0 | 51.6 | 49.08 | 37.79 | 37.8 (f) |
| **Carm/134** | 27.5 | 20.5 | 17.8 | 11.3 | 11.9 | 7.9 | 8.7 | 9.3 | 13.1 | 16.6 | 24.9 | 18.9 | 15.70 | 12.09 | |
| **Carm/126** | 42.7 | 37.1 | 31.0 | 28.6 | 26.6 | 19.9 | 18.4 | 20.0 | 26.7 | 29.9 | 40.8 | 28.5 | 29.18 | 22.47 | |
| **Carm/132** | 36.7 | 28.9 | 24.4 | 20.0 | 20.7 | 13.2 | 13.6 | 14.0 | 18.6 | - | 28.8 | 25.6 | 22.23 | 17.12 | |
| **Carm/133** | 31.2 | 24.7 | 19.2 | 14.3 | 14.4 | 9.3 | 10.2 | 9.9 | 13.7 | 15.7 | 25.4 | 14.7 | 16.89 | 13.01 | |
| **Carm/139** | 34.0 | 24.3 | 21.6 | 22.4 | 15.8 | 12.3 | 13.9 | 15.1 | 20.3 | 21.9 | 35.0 | 27.3 | 21.99 | 16.93 | |
| **Carm/140** | 31.1 | 25.8 | 21.5 | 20.8 | 13.6 | 15.0 | 14.8 | 16.5 | 21.8 | 20.5 | 31.0 | 19.6 | 21.00 | 16.17 | |
| **Llandeilo** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **FA/01** | 32.3 | 24.1 | 20.4 | 15.3 | 16.7 | 15.7 | 13.4 | 14.7 | 17.6 | 19.6 | 27.7 | 17.9 | 19.62 | 15.10 | |
| **DA/15** | 47.0 | 34.2 | 35.9 | 29.1 | 31.4 | 25.9 | 24.3 | 24.0 | 27.4 | 33.1 | 47.2 | 33.4 | 32.74 | 25.21 | |
| **DA/01** | 48.4 | 38.4 | 35.9 | 26.2 | 26.3 | 24.3 | 25.0 | 24.1 | 27.2 | 30.7 | 44.5 | 25.7 | 31.39 | 24.17 | |
| **DA/03** | 46.3 | 37.6 | 39.5 | 28.0 | - | 25.9 | 24.0 | 24.6 | 28.1 | 33.7 | 41.8 | 30.5 | 32.73 | 25.20 | |
| **Carm/013** | 56.5 | 48.7 | 51.5 | 38.5 | 24.9 | 39.1 | 35.1 | 34.7 | 41.7 | 49.3 | 61.2 | 44.1 | 43.78 | 33.71 | |
| **DA/05 (A), (B) ac (C)** | 61.4 | 53.3 | 51.6 | 36.6 | 41.1 | 37.1 | 36.2 | 36.4 | 40.5 | 43.7 | 57.2 | 43.9 | 44.92 | 34.59 | |
| **DA/07** | 66.5 | 62.0 | 57.2 | 47.6 | 46.5 | 43.5 | 39.9 | 37.3 | 44.4 | 46.4 | 66.9 | 44.2 | 50.20 | 38.65 | 38.7 (f) |
| **Carm/083** | 72.0 | 63.6 | 49.3 | 43.4 | 46.5 | 37.9 | 40.1 | 41.5 | 47.5 | 51.6 | 73.2 | 48.3 | 51.24 | 39.46 | 35.5 |

| Cyfeirnod y Safle | Crynodiadau Cymedr $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | Cymedr Blynyddol | | |
| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Data Craidd | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (Ffactor) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Datguddiad Agosaf (2) |
| **DA/09** | 77.4 | 59.8 | 61.8 | 36.6 | 57.0 | 40.5 | 44.7 | 46.1 | 47.2 | 53.4 | 77.0 | 53.4 | 54.58 | **42.02** | **42.0 (f)** |
| **DA/10** | 70.0 | 55.4 | 60.2 | 44.8 | 49.8 | 37.9 | 36.5 | 38.2 | 47.0 | 48.4 | 65.9 | 51.7 | 50.48 | 38.87 | 38.9 (f) |
| **DA/11** | 62.4 | 50.6 | 56.2 | 48.8 | 42.8 | 42.0 | 42.6 | 41.9 | 41.3 | 51.5 | 70.1 | 47.6 | 49.82 | 38.36 | 38.4 (f) |
| **DA/12** | 44.6 | 68.6 | 45.0 | 26.8 | - | 24.3 | 22.1 | 24.5 | 26.1 | 46.8 | 64.1 | - | 39.29 | 30.25 | |
| **DA/13** | 60.9 | 54.7 | 51.3 | 44.0 | 32.5 | 46.1 | 38.2 | 27.8 | 44.3 | 32.7 | 60.3 | 49.5 | 45.19 | 34.80 | |
| **DA/14** | 47.7 | 34.9 | 32.8 | 24.7 | 26.2 | 23.8 | 21.5 | 23.5 | 31.3 | 31.5 | - | 29.8 | 29.79 | 22.94 | |
| **DA/16** | 51.1 | 46.6 | 44.7 | 47.1 | 35.6 | 37.7 | 35.3 | 34.9 | 41.0 | 45.5 | 63.9 | 37.5 | 43.41 | 33.42 | |
| **FA/03** | 34.5 | 27.8 | 28.2 | 22.7 | 21.1 | 18.2 | 18.1 | 17.6 | 20.2 | 24.8 | 36.9 | 26.9 | 24.75 | 19.06 | |
| **FA/07** | 19.3 | 14.6 | 12.2 | 9.9 | 9.0 | 7.4 | 7.2 | 6.8 | 9.6 | 10.6 | 16.3 | 11.6 | 11.21 | 8.63 | |
| **FA/06** | 35.1 | - | 25.6 | 22.9 | 20.6 | 13.7 | 15.7 | 16.5 | 18.5 | - | 30.6 | 23.1 | 22.23 | 17.12 | |
| **FA/04** | 27.9 | 25.1 | 21.5 | 15.0 | 13.1 | 18.4 | 12.3 | 12.2 | 16.4 | 18.8 | 23.1 | 18.3 | 18.51 | 14.25 | |
| **FA/05** | 32.7 | 26.0 | 23.2 | 14.8 | 16.6 | 16.3 | 14.6 | 15.2 | 17.8 | 22.5 | 27.5 | 18.7 | 20.49 | 15.78 | |
| **Porth Tywyn** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Carm/127** | 34.3 | 26.2 | 16.6 | 10.7 | 13.6 | 9.4 | 7.4 | 8.6 | 11.6 | 15.3 | 20.0 | 13.1 | 15.57 | 11.99 | |
| **Carm/128** | 32.1 | 29.6 | 24.4 | 16.2 | 19.1 | 17.4 | 12.1 | 11.3 | 15.5 | 17.8 | 24.6 | 19.1 | 19.93 | 15.35 | |
| **Y Garnant** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Carm/137** | 37.8 | 28.8 | 25.1 | 15.3 | 17.7 | 11.4 | - | - | - | - | - | - | 22.68 | 16.1 | |
| **Cross Hands / Ffordd Gyswllt Economaidd** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Carm/ELR1** | - | - | - | - | 44.7 | 43.8 | 38.7 | 40.8 | 42.7 | 44.9 | 61.7 | 49.7 | 45.88 | **41.3** | 29.8 |

| Cyfeirnod y Safle | Crynodiadau Cymedr $NO_2$ (µg/m³) | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Cymedr Blynyddol | | |
| | | | | | | | | | | | | | Data Craidd | Wedi'i Addasu ar gyfer Tuedd (Ffactor) a'i Gyflwyno ar Ffurf Flynyddol (1) | Pellter wedi'i Gywiro i'r Datguddiad Agosaf (2) |
| **Carm/ELR2** | - | - | - | - | 23.1 | 24.0 | 22.7 | 24.5 | 25.4 | 27.8 | 32.0 | 27.4 | 25.86 | 23.3 | |
| **Carm/ELR3** | - | - | - | - | 19.7 | 17.2 | 14.4 | 14.4 | 21.4 | - | 33.9 | - | 20.17 | 19.1 | |
| **Carm/ELR4** | - | - | - | - | 15.3 | 13.0 | 12.6 | 11.7 | 16.3 | 19.2 | 28.9 | 22.4 | 17.43 | 15.7 | |
| **Carm/ELR9** | - | - | - | - | 8.0 | 6.4 | 5.5 | 5.5 | 8.4 | 10.4 | 16.5 | 12.3 | 9.13 | 8.2 | |
| **Carm/ELR10** | - | - | - | - | 12.9 | 10.8 | - | 11.4 | - | - | - | - | 11.70 | 13.3 | |
| **Carm/ELR11** | - | - | - | - | 10.1 | 9.7 | 8.6 | - | 11.5 | 14.0 | 21.1 | 14.3 | 12.76 | 10.9 | |
| **Carm/ELR12** | - | - | - | - | 13.4 | - | 11.6 | 13.2 | 14.5 | 17.8 | 26.4 | 17.9 | 16.40 | 14.1 | |
| **Carm/ELR21** | - | - | - | - | 10.1 | 9.6 | 8.5 | 8.2 | 13.5 | 13.4 | 22.0 | 15.6 | 12.61 | 11.3 | |
| **Carm/ELR22** | - | - | - | - | 18.6 | 16.9 | 13.6 | 14.7 | 18.0 | 20.2 | 28.4 | 19.7 | 18.76 | 16.9 | |

**Nodiadau:**

Dangosir gormodiant o'r amcan cymedr blynyddol $NO_2$ o 40µg/m³ mewn **print trwm**.

Dangosir cymedr blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/m³, sy'n arwydd o ormodiant posibl o'r amcan cymedr un awr $NO_2$, mewn print **<u>trwm ac wedi'i danlinellu</u>**.

(1) Gweler Atodiad C am fanylion ar addasu tuedd a chyflwyno ar ffurf flynyddol.

(2) Y pellter wedi'i gywiro i'r datguddiad cyhoeddus perthnasol agosaf. (f) Yn nodi bod y monitor wedi'i leoli ar ffasâd yr eiddo.

# Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol

## Diben Adroddiad Cynnydd Blynyddol

Mae'r adroddiad hwn yn ateb gofynion y broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995 a chanllawiau cysylltiedig y llywodraeth. Mae'r broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn ei ardal yn rheolaidd ac i bennu a yw'r amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni ai peidio. Lle ceir gormodiant, neu le mae gormodiant yn debygol o ddigwydd, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer o fewn 18 mis o'r datganiad sy’n nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith wrth fynd ar drywydd yr amcanion. Dylai'r cynlluniau gweithredu gael eu hadolygu wedyn a'u diweddaru lle bo angen gwneud hyn o leiaf bob pum mlynedd.

Ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn cymryd lle pob gofyniad adrodd ffurfiol arall ac mae ganddo ddiben clir iawn o ddiweddaru'r cyhoedd ynghylch ansawdd aer, gan gynnwys pa gamau gweithredu parhaus sy'n cael eu cymryd yn lleol i'w wella os oes angen.

## Amcanion Ansawdd Aer

Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n berthnasol i’r broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yng Nghymru yn cael eu nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138), a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298), ac maent yn cael eu dangos yn Tabl B.1.

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcanion mewn microgramau fesul metr ciwbig $\mu g/m^3$ (miligramau fesul metr ciwbig, $mg/m^3$ ar gyfer carbon monocsid) gyda nifer yr achosion o ormodiant ym mhob blwyddyn a ganiateir (lle bo hynny'n berthnasol).

**Tabl B.1 – Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u Cynnwys yn y Rheoliadau at Ddiben Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yng Nghymru**

| Llygrydd | Amcan Ansawdd Aer | | Dyddiad cyflawni |
|---|---|---|---|
| | Crynodiad | Wedi'i fesur fel | |
| Nitrogen deuocsid ($NO_2$) | 200µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 18 o weithiau mewn blwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2005 |
| | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2005 |
| Deunydd gronynnol ($PM_{10}$) | 50µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na saith gwaith mewn blwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2010 |
| | 18µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2010 |
| Deunydd gronynnol ($PM_{2.5}$) | 10µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2020 |
| Sylffwr deuocsid ($SO_2$) | 350µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 24 gwaith mewn blwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2004 |
| | 125µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na thair gwaith mewn blwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2004 |
| | 266µg/m$^3$ – ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 35 gwaith mewn blwyddyn | Cymedr 15 munud | 31.12.2005 |
| Bensen | 3.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegog | 31.12.2010 |
| 1,3-biwtadïen | 2.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegog | 31.12.2003 |
| Carbon monocsid | 10.0mg/m$^3$ | Cymedr 8 awr rhedegog | 31.12.2003 |
| Plwm | 0.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2008 |

# Atodiad C: Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Data Monitro Ansawdd Aer

## Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Trylediad

Mae Environmental Scientifics Group Limited (ESG) yn paratoi ac yn dadansoddi'r tiwbiau trylediad ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin. Dull paratoi'r tiwb yw aseton:triethanolamine, wedi'u cymysgu ar gymhareb o 50:50. 0.77 oedd y ffactor addasu tuedd a ddewiswyd ac fe'i cymerwyd o Gronfa Ddata Desg Gymorth Adolygu ac Asesu. Rhif fersiwn y gronfa ddata oedd 06/18.

## Ffactor o Astudiaethau Cyd-leoliad Lleol

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal astudiaeth cyd-leoliad.

## Trafodaeth ynghylch Dewis Ffactor i'w Ddefnyddio

Defnyddiwyd y ffactor addasu tuedd cenedlaethol am nad oes astudiaeth cyd-leoliad wedi'i gynnal yn lleol. 06/18 yw fersiwn ddiweddaraf taenlen addasu tuedd y tiwb, fel y manylir ar wefan Desg Gymorth Adolygu ac Asesu. Mae 29 o astudiaethau ESG wedi'u rhestru ar gyfer 2017, sy'n rhoi ffigur addasu tuedd cyffredinol o 0.77.

## Addasu Monitro Deunydd Gronynnol

Ni weithredwyd ymarfer monitro $PM_{10}$ yn ystod 2015 ac felly nid oes angen manylion perthnasol yma.

## Addasu Data o'r Tymor Byr i'r Hirdymor

Wrth ddefnyddio'r dull a ddarperir yng Nghanllaw Technegol TG (16), mae'n bosibl amcangyfrif crynodiad cymedr blynyddol posibl petai data wedi'i gasglu ar safle'r tiwb am 12 mis. Cyflawnwyd hyn wrth ddefnyddio data tiwb 2017 o safleoedd eraill o fewn y sir a chymryd cyfartaledd o'r data er mwyn cael ffigur cymhareb i'w ddefnyddio gyda'r safleoedd a adolygir. Dyma'r safleoedd a defnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer hwn: Rhydaman – Lôn Tir y Dail (2) (CARM/089), Caerfyrddin – 2 Ffordd y Coleg (CARM/134), Tre Ioan – 2 Heol Ffynnon Job (CARM/126), 41 Stryd Newydd, Porth Tywyn (CARM/127), a Choedlan Denham, Llanelli (DAL/21). Nid oedd yn bosibl cael data o safleoedd cefndir trefol lleol gan nad ydynt ar gael, felly dewiswyd cymysgedd o safleoedd ymyl y palmant ac ymyl y ffordd i ddarparu crynodiad cefndir cyfartalog ar gyfer yr ardal.

Roedd dau gyfnod byr ar wahân yn cael eu cymhwyso ar gyfer y canlyniadau a oedd angen eu cyflwyno ar ffurf flynyddol: Ionawr – Mehefin 2017 ar gyfer yr ymarfer sgrinio yn y Garnant (Carm/137) a Mai – Rhagfyr 2017 ar gyfer safleoedd y Ffordd Gyswllt Economaidd. Cymhwyswyd cyfnodau byrrach hefyd ar gyfer pedwar safle ar y Ffordd Gyswllt Economaidd lle'r oedd y data dilys a gasglwyd yn llai na'r cyfnod sgrinio o wyth mis. Ceir hyd i fanylion pellach yn 'Adroddiad Data Blynyddol (2017)' yn Atodiad E.

Ar gyfer sicrwydd ansawdd, cynhaliwyd gwiriadau cymhariaeth yn ogystal gan ddefnyddio data o safleoedd monitro awtomatig ar draws Cymru.

**Tabl C.1a – Addasu Data Monitro Tymor Byr i Hirdymor Ionawr – Mehefin 2017**

| Safle | Math o Safle | Cymedr Blynyddol (µg/m$^3$) | Cymedr y Cyfnod (µg/m$^3$) | Cymhareb |
|---|---|---|---|---|
| CARM/089 | Ar ymyl y palmant | 30.6 | 32.8 | 0.93 |
| CARM/134 | Arall | 15.7 | 16.2 | 0.97 |
| CARM/126 | Ar ymyl y ffordd | 29.2 | 31.0 | 0.94 |
| CARM/127 | Ar ymyl y palmant | 15.6 | 18.5 | 0.84 |
| DAL/21 | Arall | 14.9 | 16.6 | 0.90 |
| **Cyfartaledd** | | | | 0.92 |

**Tabl C.2b – Addasu Data Monitro Tymor Byr i Hirdymor Mai – Rhagfyr 2017**

| Safle | Math o Safle | Cymedr Blynyddol (µg/m$^3$) | Cymedr y Cyfnod (µg/m$^3$) | Cymhareb |
|---|---|---|---|---|
| CARM/089 | Ar ymyl y palmant | 30.6 | 27.0 | 1.13 |
| CARM/134 | Arall | 15.7 | 13.9 | 1.13 |
| CARM/126 | Ar ymyl y ffordd | 29.2 | 26.4 | 1.11 |
| CARM/127 | Ar ymyl y palmant | 15.6 | 12.3 | 1.27 |
| DAL/21 | Arall | 14.9 | 12.5 | 1.19 |

| Safle | Math o Safle | Cymedr Blynyddol (µg/m³) | Cymedr y Cyfnod (µg/m³) | Cymhareb |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfartaledd** | | | | 1.17 |

## Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Monitro Awtomatig

Mae rheolaeth o ddydd i ddydd safleoedd y Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig (AURN) yn cael ei chontractio i Bureau Veritas ac mae Ricardo Energy & Environment yn ymgymryd â'r rôl sicrwydd ansawdd ac uned reoli ar gyfer yr holl Rwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig. Mae sefydliadau profiadol lleol yn gyfrifol am weithredu safleoedd monitro unigol a darperir y nwyon graddnodi ar gyfer y rhwydwaith gan Air Liquide Ltd. Mae'r rhain yn cael eu darparu â thystysgrif graddnodi Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) gan Ricardo Energy & Environment. Mae Ricardo yn cynnal archwiliad sicrwydd ansawdd / rheoli ansawdd er mwyn cadarnhau'r data bob chwarter. Ceir hyd i wybodaeth bellach ar rwydweithiau monitro ar wefan UK Air DEFRA.

## Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd Monitro Tiwbiau Tryledia

Trachywiredd y Tiwbiau

Gan ddefnyddio dull paratoi o 50% TEA mewn aseton, cynhaliodd ESG Didcot 23 astudiaeth yn 2017, a gafodd eu graddio â chanlyniad trachywiredd "da" ar gyfer astudiaethau cyd-leoliad tiwbiau tryledia o nitrogen deuocsid. Mae trachywiredd tiwbiau yn cael ei raddio'n dda pan mae cyfernod amrywiad wyth neu fwy o gyfnodau ailadrodd tiwbiau tryledia yn llai nag 20% a bod cyfartaledd y cyfernod amrywiad ar gyfer pob cyfnod monitro yn llai na 10%.

Cafwyd y wybodaeth hon o'r ddogfen 'Tube Precision 2017 version 03-18 Final', sydd ar gael ar wefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol DEFRA.

Canlyniadau Profi Hyfedredd AIR

Mae AIR yn gynllun profi hyfedredd dadansoddol annibynnol, a weithredir gan LGC Standards ac sy'n cael ei gefnogi gan y Labordy Iechyd a Diogelwch. Mae AIR yn cynnig nifer o samplau prawf sydd wedi'u cynllunio i brofi hyfedredd labordai sy'n ymgymryd â'r gwaith o ddadansoddi llygryddion cemegol mewn aer amgylchynol dan do, mewn staciau ac yn y gweithle.

Dechreuodd cynllun profi hyfedredd AIR ym mis Ebrill 2014, gan gyfuno dau gynllun profi hyfedredd oedd wedi'u gweithredu ers peth amser: cynllun profi hyfedredd STACKS LGC Standards a chynllun profi hyfedredd WASP y Labordy Iechyd a Diogelwch. Mae profi hyfedredd $NO_2$ AIR yn rhan hanfodol o sicrhau ansawdd / rheoli ansawdd Rhwydwaith $NO_2$ y DU, ac mae'n declyn defnyddiol ar gyfer asesu perfformiad dadansoddol y labordai hynny sy'n darparu tiwbiau tryledaid i awdurdodau lleol i'w defnyddio o fewn cyd-destun Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol.

Mae'r canlyniadau isod ar gyfer Environmental Services Group, Didcot [1].

| Profi Hyfedredd AIR AR013 | Profi Hyfedredd AIR AR015 | Profi Hyfedredd AIR AR016 | Profi Hyfedredd AIR AR018 | Profi Hyfedredd AIR AR019 | Profi Hyfedredd AIR AR021 | Profi Hyfedredd AIR AR022 | Profi Hyfedredd AIR AR024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill – Mai 2016 | Gorffennaf – Awst 2016 | Medi – Hydref 2016 | Ionawr – Chwefror 2017 | Ebrill – Mai 2017 | Gorffennaf – Awst 2017 | Medi – Hydref 2017 | Ionawr – Chwefror 2018 |
| 75% | 75% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

[1] Mae'r cyfranogwr yn tanysgrifio i ddwy set o samplau prawf (2 X 4 sampl prawf) ym mhob rownd profi hyfedredd AIR.

Cafwyd y manylion uchod o'r ddogfen 'LAQM $NO_2$ PT Summary – AIR PT Rounds 13 to 24 Apr 2016 – Feb 2018', sydd wedi'i lleoli ar wefan Desg Gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol DEFRA.

# Atodiad D: Mapiau Ffin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

### Ffigur D.1 – Map o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo



**Ffigur D.2 – Map o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin**



**Ffigur D.3 – Map o ffin Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli**



**Atodiad E – Adroddiad Data Blynyddol (2017)**

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Deddf yr Amgylchedd 1995

## Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

**Adroddiad Data Blynyddol (2017) i'w ddefnyddio gydag Adroddiad Cynnydd 2018**

**(Medi 2018)**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion ar gyfer y cyfrifiadau sy'n ymwneud â data blynyddol sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Cynnydd 2018 er mwyn cael rhagfynegiad mwy cywir ar gyfer beth fyddai'r canlyniadau blynyddol ar gyfer safle tiwb Carm/137 (Ffordd Cwmaman, y Garnant) a safleoedd Cross Hands / Ffordd Gyswllt Economaidd Carm/ELR1, 2, 3, 4, 9, 10, 11, 12, 21 a 22 ar gyfer 2017.

## Cefndir

Sefydlwyd safle tiwb tryledìad Carm/137 i fonitro effaith clustogau arafu ar yr heol. Roedd ond yn ymarferol i ddal gwerth chwe mis o ddata ar gyfer y flwyddyn ac felly ystyrir ei bod yn briodol roi'r data ar ffurf flynyddol er mwyn cael gwell syniad o'r hyn y byddai'r ffigur cymedr blynyddol wedi bod.

Yn Cross Hands, sefydlwyd nifer o safleoedd monitro tiwbiau tryledìad hefyd i fonitro lefelau presennol $NO_2$ o amgylch cyffiniau'r Ffordd Gyswllt Economaidd newydd, a fydd yn rhedeg rhwng Heol Llandeilo a Heol y Llew Du. Diben y ffordd gyswllt hon yw lleddfu'r tagfeydd a brofir yn bresennol o amgylch cyffordd chwe ffordd Gors-las a Heol Cross Hands wrth i gerbydau agosáu at gylchfan Cross Hands. Gan fod yr ymarfer sgrinio hwn ond wedi dechrau ym mis Mai 2017, roedd ond yn bosibl dal gwerth wyth mis o ddata ac, yn anffodus, ar gyfer pedwar o'r safleoedd hyn, roedd y data dilys a gasglwyd hyd yn oed yn llai. Serch hynny, daliwyd gwerth dros dri mis o ddata ar gyfer pob safle monitro ac felly mae'n ymarferol ac yn angenrheidiol rhoi'r canlyniadau hyn ar ffurf flynyddol.

Dangosir y data tiwb crai misol ar gyfer y misoedd a gasglwyd ar gyfer pob ymarfer sgrinio yn Nhablau 1a ac 1b isod, ynghyd â'r cymedr crai a fesurwyd.

**Tabl 1a – Data Crai Misol (Safle'r Garnant – Carm/137)**

| Cyfeirnod y Tiwb | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Cymedr wedi'i Fesur |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/137 | 37.8 | 28.8 | 25.1 | 15.3 | 17.7 | 11.4 | 22.7 |

Os lluosir y ffigur cymedr yn Nhabl 3a uchod â 0.77 (y ffigur sydd wedi'i addasu o ran tuedd), yna'r cymedr blynyddol yw 17.5µg/m$^3$.

**Tabl 1b – Data Crai Misol (Safleoedd y Ffordd Gyswllt Economaidd)**

| Cyfeirnod y Tiwb | Mai | Meh. | Gorff. | Awst | Medi | Hyd. | Tach. | Rhag. | Cymedr wedi'i Fesur |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/ELR1 | 44.7 | 43.8 | 38.7 | 40.8 | 42.7 | 44.9 | 61.7 | 49.7 | 45.9 |
| Carm/ELR2 | 23.1 | 24.0 | 22.7 | 24.5 | 25.4 | 27.8 | 32.0 | 27.4 | 25.9 |
| Carm/ELR3 | 19.7 | 17.2 | 14.4 | 14.4 | 21.4 | - | 33.9 | - | 20.2 |
| Carm/ELR4 | 15.3 | 13.0 | 12.6 | 11.7 | 16.3 | 19.2 | 28.9 | 22.4 | 17.4 |
| Carm/ELR9 | 8.0 | 6.4 | 5.5 | 5.5 | 8.4 | 10.4 | 16.5 | 12.3 | 9.1 |
| Carm/ELR10 | 12.9 | 10.8 | - | 11.4 | - | - | - | - | 11.7 |
| Carm/ELR11 | 10.1 | 9.7 | 8.6 | - | 11.5 | 14.0 | 21.1 | 14.3 | 12.8 |
| Carm/ELR12 | 13.4 | - | 11.6 | 13.2 | 14.5 | 17.8 | 26.4 | 17.9 | 16.4 |
| Carm/ELR21 | 10.1 | 9.6 | 8.5 | 8.2 | 13.5 | 13.4 | 22.0 | 15.6 | 12.6 |
| Carm/ELR22 | 18.6 | 16.9 | 13.6 | 14.7 | 18.0 | 20.2 | 28.4 | 19.7 | 18.7 |

## Data Blynyddol

Wrth ddefnyddio'r dull a ddarperir yng Nghanllaw Technegol TG (16), mae'n bosibl amcangyfrif yr hyn y gallai'r crynodiad cymedr blynyddol fod wedi bod petai gwerth 12 mis o ddata wedi'i

gasglu ar gyfer y safle tiwb. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio data tiwb 2017 o leoliadau eraill o fewn y sir, gan gymryd cyfartaledd o'r data a chael ffigur cymhareb i'w ddefnyddio gyda'r safleoedd sy'n cael eu hadolygu. Dyma'r safleoedd a defnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer hwn: Rhydaman – Lôn Tir y Dail (2) (Carm/089), Caerfyrddin – 2 Ffordd y Coleg (Carm/134), Tre Ioan – 2 Heol Ffynnon Job (Carm/126), 41 Stryd Newydd, Porth Tywyn (Carm/127), a Choedlan Denham, Llanelli (DAL/21).

Nid oedd yn bosibl cael data o safleoedd cefndir trefol lleol gan nad oeddent ar gael, felly dewiswyd cymysgedd o safleoedd ymyl y palmant a safleoedd ymyl y ffordd i ddarparu crynodiad cefndir cyfartalog mwy cynrychioliadol ar gyfer yr ardal.

Mae Tabl 2a isod yn dangos data crai misol 2017 ar gyfer y safleoedd yn ogystal â'r cymedr blynyddol ac mae Tabl 2b yn darparu'r data crai ar gyfer cyfnodau perthnasol yn 2017, yn ogystal â chymedr y cyfnod. Roedd y data a gasglwyd ar gyfer Lôn Tir y Dail (2), 2 Stryd y Coleg, 2 Heol Ffynnon Job, 41 Stryd Newydd a Choedlan Denham yn 100% ar gyfer 2017.

**Tabl 2a – Data Crai 2017 (Cymedr Blynyddol)**

| Cyfeirnod y Tiwb | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Cymedr Blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm /089 | 53.4 | 39.3 | 31.1 | 27.7 | 28.7 | 16.7 | 18.2 | 17.1 | 25.6 | 28.7 | 48.9 | 31.7 | 30.6 |
| Carm /134 | 27.5 | 20.5 | 17.8 | 11.3 | 11.9 | 7.9 | 8.7 | 9.3 | 13.1 | 16.6 | 24.9 | 18.9 | 15.7 |
| Carm /126 | 42.7 | 37.1 | 31.0 | 28.6 | 26.6 | 19.9 | 18.4 | 20.0 | 26.7 | 29.9 | 40.8 | 28.5 | 29.2 |
| Carm /127 | 34.3 | 26.2 | 16.6 | 10.7 | 13.6 | 9.4 | 7.4 | 8.6 | 11.6 | 15.3 | 20.0 | 13.1 | 15.6 |
| DAL/ 21 | 29.5 | 20.7 | 17.2 | 11.4 | 11.5 | 9.6 | 8.5 | 8.7 | 12.0 | 14.2 | 21.2 | 14.5 | 14.9 |

**Tabl 2b – Data Crai 2017 (Ionawr – Mehefin) Cymedr y Cyfnod ar gyfer y Garnant cyf. Carm/137**

| Cyfeirnod y Tiwb | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Cymedr y Cyfnod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carm/089 | 53.4 | 39.3 | 31.1 | 27.7 | 28.7 | 16.7 | 32.8 |
| Carm/134 | 27.5 | 20.5 | 17.8 | 11.3 | 11.9 | 7.9 | 16.2 |
| Carm/126 | 42.7 | 37.1 | 31.0 | 28.6 | 26.6 | 19.9 | 31.0 |
| Carm/127 | 34.3 | 26.2 | 16.6 | 10.7 | 13.6 | 9.4 | 18.5 |
| DAL/21 | 29.5 | 20.7 | 17.2 | 11.4 | 11.5 | 9.6 | 16.6 |

| Carm/ELR21 | Oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol | 301 239 |
| Carm/ELR22 | Oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Ddim yn berthnasol | 301 242 |

**Tabl 6b – Manylion safle tiwbiau tryledìad ar gyfer safleoedd ffordd gyswllt economaidd**

| Lleoliad y tiwb | Cyfeirnod y tiwb | Uchder (m) | Y pellter o'r palmant (m) | Y pellter at y derbynnydd (m) | X | Y |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cross Hands (2) (cylchfan) | Carm/ELR1 | 2.73 | 1.54 | 6.13 | 256458 | 213067 |
| Cross Hands (tŷ) (gogledd) | Carm/ELR2 | 2.66 | 6.00 | 0 | 256465 | 213085 |
| Chwe Ffordd Gors-las | Carm/ELR3 | 2.58 | 1.68 | 3.45 | 257027 | 213774 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwe Ffordd Gors-las (2) | Carm/ELR4 | 2.73 | 6.85 | 0 | 257022 | 213777 |
| Heol y Gât (ger Rhif 181) | Carm/ELR9 | 2.65 | 1.82 | 3.45 | 257837 | 214594 |
| Heol Norton (ger Rhif 43) | Carm/ELR10 | 2.80 | 2.30 | 4.50 | 257563 | 213717 |
| Cyffordd Heol Norton (DP 24) | Carm/ELR11 | 2.50 | 1.75 | 4.50 | 257752 | 213562 |
| Heol Norton (gorllewin) (ger Rhif 94) | Carm/ELR12 | 2.74 | 0.10 | 1.70 | 258269 | 213646 |
| Heol y Llew Du (gorllewin) (ger Helyg) | Carm/ELR21 | 2.55 | 1.55 | 15.10 | 257564 | 212950 |
| Heol y Llew Du (dwyrain) (ger Gorse Villa) | Carm/ELR22 | 2.8 | 2.2 | 3.20 | 257666 | 212864 |

Gwnaeth y gwaith monitro ddechrau ym mis Mai 2017 am gyfnod o wyth mis. Dangosir y canlyniadau monitro misol yn Nhabl 6c isod.

**Tabl 6c – Canlyniadau monitro misol ar gyfer safleoedd y ffordd gyswllt economaidd**

| Cyfeirnod y Safle | Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Cymedr Blynyddol | | | |
| | | | | | | | | | Data Craidd | Addaswyd ar gyfer tuedd (ffactor) (0.77) | Addaswyd ar gyfer tuedd (ffactor) ac wedi'i gyflwyno ar ffurf flynyddol | Pellter wedi'i gywiro i'r datguddiad agosaf |
| Carm/ELR1 | 44.7 | 43.8 | 38.7 | 40.8 | 42.7 | 44.9 | 61.7 | 49.7 | 45.9 | 35.3 | 41.3 | 29.8 |
| Carm/ELR2 | 23.1 | 24.0 | 22.7 | 24.5 | 25.4 | 27.8 | 32.0 | 27.4 | 25.9 | 19.9 | 23.3 | - |
| Carm/ELR3 | 19.7 | 17.2 | 14.4 | 14.4 | 21.4 | - | 33.9 | - | 20.2 | 15.5 | 19.1 | - |
| Carm/ELR4 | 15.3 | 13.0 | 12.6 | 11.7 | 16.3 | 19.2 | 28.9 | 22.4 | 17.4 | 13.4 | 15.7 | - |
| Carm/ELR9 | 8.0 | 6.4 | 5.5 | 5.5 | 8.4 | 10.4 | 16.5 | 12.3 | 9.1 | 7.0 | 8.2 | - |
| Carm/ELR10 | 12.9 | 10.8 | - | 11.4 | - | - | - | - | 11.7 | 9.0 | 13.3 | - |
| Carm/ELR11 | 10.1 | 9.7 | 8.6 | - | 11.5 | 14.0 | 21.1 | 14.3 | 12.8 | 9.9 | 10.9 | - |
| Carm/ELR12 | 13.4 | - | 11.6 | 13.2 | 14.5 | 17.8 | 26.4 | 17.9 | 16.4 | 12.6 | 14.1 | - |
| Carm/ELR21 | 10.1 | 9.6 | 8.5 | 8.2 | 13.5 | 13.4 | 22.0 | 15.6 | 12.6 | 9.7 | 11.3 | - |
| Carm/ELR22 | 18.6 | 16.9 | 13.6 | 14.7 | 18.0 | 20.2 | 28.4 | 19.7 | 18.7 | 14.4 | 16.9 | - |

Gan fod yr ymarfer sgrinio hwn wedi dechrau ym mis Mai 2017, roedd hi ond yn bosibl casglu wyth mis o ddata ac felly roedd yn angenrheidiol cyflwyno'r canlyniadau hyn ar ffurf flynyddol er mwyn cael syniad gwell o beth allai'r ffigur cymedr blynyddol fod pe bai'r gwaith monitro wedi digwydd ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Mae'r canlyniadau a gafodd eu cyflwyno'n flynyddol wedi'u rhestru yn Nhabl 6c uchod. Gellir dod o hyd i fanylion pellach ar y dull gweithredu ar gyfer cyflwyno'r data hwn ar ffurf flynyddol yn yr Adroddiad Data Blynyddol (2017) i'w ddefnyddio gydag Adroddiad Cynnydd 2018. Gellir gweld cymhariaeth o'r data a gafodd ei gyflwyno'n flynyddol ac na chafodd ei gyflwyno'n flynyddol yn y graff isod.

**Ffigur 1 – Cymharu data a gafodd ei gyflwyno'n flynyddol ac na chafodd ei gyflwyno'n flynyddol**




Dim ond un o'r safleoedd tiwb hyn, sef Carm/ELR1, a oedd yn fwy na'r amcan ansawdd aer blynyddol o 40µg/m$^3$, gyda darlleniad o 41µg/m$^3$ pan gafodd ei gyflwyno’n flynyddol yn erbyn y data tiwb trylediad lleol a 43µg/m$^3$ pan gafodd ei gyflwyno’n flynyddol gan ddefnyddio data monitro awtomatig. Mae'r safle hwn wedi'i leoli gerllaw cylchfan Cross Hands, a gobeithir y bydd y ffordd gyswllt economaidd yn lliniaru tagfeydd yn y dyfodol. Er hynny, nid dyma'r senario waethaf posibl oherwydd nid yw'r safle hwn wedi'i leoli yn y pwynt datguddiad perthnasol ond wedi'i leoli ychydig dros chwe metr i ffwrdd o'r derbynnydd.

Felly cafodd gwaith pellach ei gyfrifo i ddarogan y crynodiad ger y derbynnydd gan ddefnyddio'r cyfrifydd pellter gostyngiad $NO_2$ a ddarparwyd gan ddesg gymorth Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol. Roedd y canlyniad a gafodd ei ddarogan yn 30µg/m$^3$, sy'n sylweddol is na lefel yr amcan.

## 9.0 Trafodaeth o'r Canlyniadau a Chasgliad

O'r data cyfrifo traffig a gasglwyd, gellir gweld o'r canlyniadau ei fod yn annhebygol fod llygredd traffig yn bryder sylweddol ar gyfer datblygiad Fferm Genwen oherwydd nid oedd yn fwy na'r gwerth yn y canllawiau o 5000 AADT, felly ni chydnabyddir ar hyn o bryd fod unrhyw angen monitro lefelau nitrogen deuocsid yn yr ardal hon.

Ar y llaw arall, roedd gan leoliad Abergwili lif traffig amcangyfrifedig o fwy na 5000 AADT ac felly ystyriwyd ei fod yn briodol nodi safle monitro addas. Fodd bynnag, gwnaeth y canlyniadau sgrinio ddangos crynodiadau isel o nitrogen deuocsid gyda'r ddau safle yn adrodd am lefel crynodiad islaw 17µg/$m^3$. Er hynny, bydd y gwaith monitro yn yr ardaloedd hyn yn parhau er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau a wneir o ran cyflenwi cynigion cynllun gweithredu Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin yn symud y broblem i fan arall.

Mae data'r ymarferion sgrinio $NO_2$ yn dangos na wnaeth yr holl safleoedd monitro a gynhwyswyd yn yr adroddiad sgrinio hwn fynd yn fwy na'r amcan cymedr blynyddol ansawdd aer o 40µg/$m^3$. Yn wir, gwnaeth safle gorsaf betrol Asda a safle Heol Cwmaman adrodd am grynodiadau isel iawn ar 14µg/$m^3$ a 16µg/$m^3$ yn y drefn honno, felly penderfynwyd peidio â pharhau i fonitro'r ansawdd aer yn y ddau leoliad hyn.

O ran Hen Heol, Llanelli, fodd bynnag, gwnaeth yr ymarfer sgrinio adrodd am grynodiad cymedr blynyddol gyda thuedd a addaswyd o 30µg/$m^3$, ac er ei fod islaw'r amcan ansawdd aer blynyddol o 40µg/$m^3$, mae'r cyfrifiad traffig dyddiol ar gyfartaledd yn agos iawn at y gwerth yn y canllawiau ac mae'r ffordd wedi'i lleoli o fewn ein Hardal Rheoli Ansawdd Aer. Felly penderfynwyd ei fod yn briodol parhau â'r ymarfer sgrinio yn y ffordd hon, er mwyn monitro unrhyw newidiadau ac unrhyw effeithiau y gallai datblygiadau pellach eu cael, yn arbennig wrth i waith fynd rhagddo i gyflenwi gwelliannau ar gyfer yr ardal hon drwy gynllun gweithredu Llanelli.

Dim ond un safle o fewn ymarfer sgrinio’r ffordd gyswllt economaidd a gyrhaeddodd lefel uchel o bryder ond cafodd hyn ei leihau i 30µg/$m^3$ yn ddiweddarach ar ôl gweithredu'r cyfrifiad data gostyngiad $NO_2$. Mae'r safle o dan sylw wedi'i leoli ar hyd y llwybrau presennol sy'n amgylchynu'r ffordd gyswllt economaidd gerllaw cylchfan Cross Hands. Y gobaith yw y bydd cyflwyno ffordd gyswllt newydd yn lliniaru tagfeydd yn yr ardal hon ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyfer preswylwyr lleol.

## Atodiad 1 – Map Lleoliad Fferm Genwen, y Bynea



# Atodiad 2 – Map Lleoliad Abergwili

Abergwili




0 50 100 150m

| Graddfa<br>Scale | Canol y Map<br>Map Centre | Dyddiad<br>Date |
|---|---|---|
| 1:5000 | [242806.5,221120.2] | 17/05/2017 |

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 100023377

## Atodiad 3 – Map Lleoliad Cyfrifiad Traffig yr Hen Heol




(Cymerwyd lleoliad y cyfrifiad traffig o Safle 49)

## Lleoliad Tiwb Tryledlad – Llanelli – 3 Hen Heol, Carm/141



# Atodiad 4 – Map Lleoliad Gorsaf Betrol Asda (Llanelli)

Asda PFS (Llanelli)




0 20 40 60m

| Graddfa<br>Scale | Canol y Map<br>Map Centre | Dyddiad<br>Date |
|---|---|---|
| 1:2500 | [250889.4,200203.6] | 17/05/2017 |

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 100023377

## Atodiad 5 – Map Lleoliad y Garnant

Sir Gâr Carmarthenshire Garnant




0 50 100 150m

| Graddfa Scale | Canol y Map Map Centre | Dyddiad Date |
|---|---|---|
| 1:5000 | [269028.3,213188] | 17/05/2017 |

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 100023377

## Atodiad 6 – Map Lleoliad Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands



## Atodiad 6.1 – Map Lleoliad Tiwbiau Trylediad Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands



**Atodiad H: Asesiad Dichonoldeb Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo ar gyfer Opsiynau Cam 1 sy'n Weddill**

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Deddf yr Amgylchedd 1995

## Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

**Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo 2016**

**Asesiad Dichonoldeb ar gyfer Opsiynau Cam 1 sy'n Weddill**

**(Mawrth 2018)**

**Grŵp Cynllunio Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo**

## Cynnwys

Tudalen


1.0 Diben yr Adroddiad 3
2.0 Cam 1 – Opsiynau sy'n weddill o Gam 1 4
3.0 Cam 1 – Ymyriadau sy'n weddill 5
3.1 Cynnig C1 ac C4 5
3.2 Cynnig 21 7
3.3 Cynnig 8 8
3.4 Cynnig 9 8

4.0 Ymyriadau Cynllun Cyn-gweithredu 9
4.1 Gwelliannau Gorsaf Drenau Llandeilo 10

Cyfeiriadau

Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo – Cam 1

## 1.0 Diben yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar yr asesiadau dichonoldeb a gafodd eu cyflawni ar yr opsiynau cynigion ymyriadau a oedd yn weddill o Gam 1 cynllun gweithredu Llandeilo.

Cafodd y cynigion eu casglu o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gyflawnwyd fel rhan o’r gwaith o lunio'r cynllun gweithredu. Fe'i gwnaed yn glir yn adroddiad y cynllun gweithredu, a luniwyd i gefnogi'r cynllun gweithredu, nad oedd unrhyw warant y byddai unrhyw ymyriadau yn cael eu gweithredu, ond roeddent i gyd yn amodol ar asesiad er mwyn penderfynu ar eu dichonoldeb a'u llwyddiant tebygol.

Mae'r opsiynau sy'n weddill wedi bod yn destun sgrinio cychwynnol ond mae'n ofynnol cael asesiad manylach o'u hymarferoldeb a'u dichonoldeb. Mae'r opsiynau sy'n weddill yn cael eu rhestru yn Adran 2.0 isod.

## 2.0 Cam 1 – Opsiynau Ymyrraeth sy'n Weddill

Mae'r holl opsiynau ar wahân i'r rheini a restrir isod naill ai wedi cael eu gweithredu neu heb ddatblygu ymhellach. Mae'r rhesymau wedi cael eu hamlinellu yn Adroddiadau Cynnydd Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2017 a 2018.

**8** – Hyrwyddo beicio a cherdded i'r ysgol yn fwy. Darparu ysgogiadau megis helmedau beicio am ddim os yw plant yn beicio i'r ysgol fwy na 75 gwaith mewn blwyddyn.

**9** – Hyrwyddo rhannu car i'r gwaith / ysgol. Sefydlwyd gwefan ar gyfer yr ardal wledig i'r gogledd o Landeilo ar gyfer pobl sy'n teithio i Abertawe / Llanelli / Caerfyrddin ac ati.

**21** – Hyrwyddo llwybrau amgen (o bosibl drwy gysylltiadau cludiant) i leoliadau i'r gogledd o Landeilo fel y gall cerbydau osgoi'r dref.

**C1** – Asesu dichonoldeb gweithredu cyfyngiad pwysau 15 tunnell ar y bont islaw Stryd y Bont i sicrhau bod cerbydau mwy yn cael eu dargyfeirio i ffwrdd o'r dref.

**C4** – Asesu dichonoldeb cynllun treialu chwe mis ar gyfer cerbydau nwyddau trwm i ffwrdd o'r dref (ar wahân i ddosbarthu nwyddau).

## 3.0 Cam 1 – Dichonoldeb Ymyriadau sy'n Weddill

Mae opsiynau C1 ac C4 yn debyg iawn o ran natur a byddai'r ddau angen amrediad tebyg o feini prawf asesu ar gyfer penderfynu ar eu dichonoldeb, felly byddai'n gwneud synnwyr edrych ar y ddau gynnig gyda'i gilydd.

Mae gan Opsiwn 21 debygrwydd i C1 ac C4 ond byddai angen rhai ystyriaethau gwahanol felly ymdrinnir ag ef ar wahân. Yn debyg, mae opsiynau 8 a 9 yn ddigon gwahanol i warantu eu hasesiadau eu hunain.

**3.1** Cynigion C1 ac C4

I bob pwrpas, mae'r ddau gynnig hyn yn ei wneud yn ofynnol ailgyfeirio rhai, neu'r rhan fwyaf, o gerbydau nwyddau trwm at lwybrau amgen nad ydynt yn mynd drwy dref Llandeilo. Rhaid cofio bod yr A483 sy'n mynd drwy Landeilo yn rhan o'r brif gefnffordd rhwng Manceinion ac Abertawe.

Gan fod y ffordd drwy Landeilo yn gefnffordd, mae'n dod o dan gyfrifoldeb Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) sy'n cynnal ac yn gweithredu'r llwybr ar ran Llywodraeth Cymru. Felly, byddai gan Asiant Cefnffyrdd De Cymru'r cyfrifoldeb dros ailgyfeirio unrhyw gerbydau oddi ar y ffordd. O wneud hynny, yn rhesymol gallent ond yn ei gwneud yn ofynnol i ailgyfeirio cerbydau i ddefnyddio cefnffyrdd amgen. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n ofynnol dilyn nifer o gamau sy'n arwain at amrywiaeth o oblygiadau, a gaiff eu trafod yn ddiweddarach.

Fodd bynnag, er mwyn rhoi syniad o'r hyn fyddai'n ofynnol gan yr ailgyfeirio, mae Ffigur 1 isod yn dangos y rhwydwaith ffyrdd ar gyfer yr ardal gyda Llandeilo yn y cornel uchaf ar y dde a'r llwybr i bob pwrpas o'r gogledd i'r de yn teithio drwy'r dref. Byddai'r unig gefnffordd amgen sydd ar gael yn ei gwneud yn ofynnol creu gwyriad (i'r sawl sy'n teithio o'r gogledd) i'r dde ychydig cyn Llandeilo i'r A40, gan deithio i'r gorllewin i dref Caerfyrddin ond gan ddefnyddio'r ffordd osgoi ddwyreiniol i gyrraedd yr A48 cyn anelu i'r dwyrain ar hyd yr A48 mor bell â chyffordd 59 traffordd yr M4.




Ffigur 1 – Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gwyriad hwn tua 30 milltir a byddai'n cymryd tuag awr i deithio gan ddibynnu ar yr amodau ffyrdd a thraffig. Byddai'r milltiroedd ychwanegol, o'i gymharu â llwybr o'r gogledd i'r de ar yr A483, tua 18 milltir yn ychwanegol.

Cynhaliwyd cyfarfod i drafod y cynigion hyn gydag Asiant Cefnffyrdd De Cymru ym mis Ionawr 2018 ac mae'n glir y byddai'r opsiynau hyn yn arwain at effeithiau canlyniadol anffafriol, sef yr isod, ond heb eu cyfyngu iddynt:

- Gosod cyfyngiad pwysau ar bont a leolir i'r de o Stryd Rhosmaen, neu byddai'r gwyriad ar gyfer cerbydau nwyddau trwm angen Gorchymyn Traffig oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'n hynod debygol y byddai gorchymyn o'r fath yn derbyn gwrthwynebiad cryf oddi wrth gludwyr ac eraill, yn sgil y tanwydd, amser a chostau ychwanegol sylweddol eraill a fyddai ynghlwm yn y 36 milltir ychwanegol sy'n gysylltiedig â thaith ddychwelyd. Byddai'r pellter hwn ar gyfer y cludwyr hynny sydd eisoes yn teithio o draffordd yr M4.
- Mae cludwyr hysbys sydd eisoes yn bodoli ar yr A483 i'r de o Landeilo. Ar gyfer y rhain, byddai'r milltiroedd ychwanegol i'w teithio i'r cyfeiriad i'r gwrthwyneb i ymuno â'r llwybr amgen yn sylweddol.
- Gorfodi – byddai gosod Gorchymyn Traffig angen gwaith gorfodi sylweddol er mwyn iddo lwyddo. Nid yw'n glir a fyddai'r adnoddau gofynnol ar gael ar gyfer hyn.
- Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ni fyddai'r milltiroedd ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer yr opsiynau hyn yn cael eu hystyried yn opsiwn cynaliadwy sy'n ymwybodol o'r amgylchedd.
- Dadleoliad – byddai'r llwybr amgen yn dadleoli cerbydau nwyddau trwm i lwybrau eraill, gan felly gynyddu sŵn a llygredd mewn pentrefi a phentrefannau ar hyd y gwyriad.
- Logisteg dosbarthu nwyddau i dref Llandeilo – ni fyddai gosod cyfyngiad pwysau a/neu wyriad cerbydau nwyddau trwm yn hwyluso dosbarthu nwyddau.
- Byddai'r cyfyngiad pwysau a/neu wyriad yn cael effaith negyddol ar wasanaethau bysiau, a allai yn eu tro gael effaith ar symudedd cymdeithasol.

3.2 Cynnig 21 – hyrwyddo llwybrau amgen

Mae llawer o'r problemau y tynnwyd sylw atynt yn 3.1 uchod yn berthnasol i'r cynnig hwn hefyd; fodd bynnag, byddai'r cynnig hwn yn berthnasol i'r holl gerbydau. Gan na

fyddai hwn yn fesur sy'n gysylltiedig â gorchymyn traffig, byddai cyhoeddi llwybrau amgen mewn capasiti darparu gwybodaeth neu gyngor. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r llwybrau amgen addas sy'n caniatáu ar gyfer osgoi Stryd Rhosmaen, Llandeilo. Gwnaeth cau'r ffordd dros dro yn 2013 dynnu sylw at hyn ac roedd dadleoli cerbydau ar y ffyrdd cul ond yn symud y problemau ansawdd aer a sŵn i fannau eraill. Gwnaeth defnyddio llwybrau amgen hefyd effeithio'n negyddol ar y seilwaith ffyrdd, na chafodd ei gynllunio i ddelio â'r swm ychwanegol o draffig, nac yn gallu delio ag ef.

Mae'n safbwynt afrealistig y byddai traffig ffyrdd yn defnyddio unrhyw rai o'r llwybrau sydd ar gael ar hyn o bryd yn wirfoddol, a byddai'r rheini sy'n gwneud hynny yn arwain at effaith gadarnhaol ddibwys ar ansawdd aer.

### 3.3 Cynnig 8 – hyrwyddo beicio a cherdded i'r ysgol

Nid oes unrhyw gynllun teithio llesol ar gyfer tref Llandeilo, ond mae Llwybr Beicio Dyffryn Tywi yn ddatblygiad yn y dyfodol a fydd yn hwyluso beicio yn fawr fel dull trafnidiaeth dichonadwy. Fodd bynnag, bydd tua 18–24 mis cyn bod dechrau'r cam hwn yn cael ei gyflawni.

Ni fu unrhyw ddatblygiadau addas yn yr ardal a allai ddarparu mecanwaith ar gyfer llwybrau diogel i'r ysgol, ond os oes cyfle yn codi lle y gallai cyfleusterau gael eu rhoi ar waith (megis gwella goleuadau / llwybrau cerdded ac ati), byddant yn cael eu harchwilio.

Cafodd cysylltiadau eu meithrin ag ysgol yn yr ardal, ac mae swyddogion wedi mynychu'r ysgol i drafod cyfleoedd ar gyfer cerdded / beicio i'r ysgol. Tynnwyd sylw'r ysgol at brosiectau megis ymgyrch Strydoedd Byw. Hyd yn hyn, mae'n edrych yn debyg mai prin yw'r archwaeth i newid ymddygiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ysgol yn yr ardal, ac yn sicr nid oes unrhyw arwydd fod gwelliannau i ansawdd aer wedi cael eu sicrhau yn sgil hyn eto.

### 3.4 Cynnig 9 – Hyrwyddo rhannu car i'r ysgol / gwaith

Mae rhannu ceir yn cael ei hyrwyddo'n bennaf gan Gyngor Sir Caerfyrddin drwy arwyddbostio at wefan Rhannu Cymru. Nid oes unrhyw gynlluniau penodol hysbys ar gyfer tref Llandeilo.

Mae'r tabl ar dudalen 9 yn dangos cynnydd o ran y defnydd o'r orsaf drenau yn Llandeilo, ond nid yw'n hysbys os yw'r niferoedd teithwyr hynny'n cymudo i/o'r gwaith/ysgol, ac os felly a oes unrhyw rannu ceir yn rhan o'u taith wrth iddi fynd rhagddi. Felly mae'n anodd priodoli unrhyw effaith ar ansawdd aer o'r mesur hwn.

# 4.0 Ymyrraeth Cynllun Cyn-gweithredu

**4.1** Gwelliannau Gorsaf Drenau Llandeilo

Mae'r data defnydd o'r orsaf drenau wedi cael ei adolygu ac mae manylion ffigurau'r 'Holl Niferoedd Teithwyr' o 2009/10 i 2015/16 yn cael eu nodi isod yn Nhabl 3.

| Blwyddyn yr Adroddiad | Holl Niferoedd Teithwyr (Mewn/Allan) | |
|---|---|---|
| | Diwedd y flwyddyn flaenorol | Diwedd y flwyddyn yr adroddwyd arni |
| 2009 / 10 | 13760 | 13656 |
| 2010 / 11 | 13656 | 14518 |
| 2011 / 12 | 14518 | 15338 |
| 2012 / 13 | 15338 | 16368 |
| 2013 / 14 | 16368 | 15786 |
| 2014 / 15 | 15786 | 17386 |
| 2015 / 16 | 17386 | 17562 |
| 2016 / 17 | 17562 | 18764 |

Mae'r data yn awgrymu bod niferoedd teithwyr ar gyfer yr orsaf yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd.

# Cyfeiriadau

Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer: Turning Reviews Into Action (NSCA) – Cymdeithas Genedlaethol dros Aer Glân a Gwarchod yr Amgylchedd

Cyngor Sir Caerfyrddin – Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo

Cyngor Sir Caerfyrddin – Adolygiad Cyntaf (2016) Cynllun Gweithredu Llandeilo 2015

Cyngor Sir Caerfyrddin – Ail Adolygiad (2017) Cynllun Gweithredu Llandeilo 2015

Canllawiau Polisi Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol Cymru LAQM PG 09(W) – Llywodraeth Cymru (2009)

Local Air Quality Management Technical Guidance TG (09) – DEFRA (2009)

http://orr.gov.uk/statistics/published-stats/station-usage-estimates

https://sharecymru.carbonheroes.com/ShareCymru.aspx

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad/llwybr-dyffryn-tywi/

# Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo – Cam 1 (Amserlen Fer a Dichonoldeb Hawdd)

| Rhif y cynnig | Disgrifiad o'r cynnig | Gostyngiad a ragwelir mewn $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | Costau a amcangyfrifir | Arweinydd | Effeithiau canlyniadol |
|---|---|---|---|---|---|
| 3a | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd y Bont os yw'n bosibl. [Siop Ffrwythau a Llysiau Gerwyn] | 1 – 2 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Effaith negyddol bosibl ar gyfer y siop ffrwythau a llysiau. Gallai preswylwyr hefyd gwyno ynglŷn â chael gwared ar y ddarpariaeth barcio. Bydd cael gwared ar y ddarpariaeth barcio yn arwain at effaith economaidd negyddol ar fusnesau lleol. |
| 3b | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd Rhosmaen os yw'n bosibl. [Eglwys Sant Teilo]. | 1 - 2 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Gallai greu problemau ar gyfer parcio cerbydau cynnal a chadw'r tir o ran yr eglwys/tir yr eglwys/pobl yn ymweld â beddi. |
| 3c | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd Rhosmaen lle y bo'n bosibl. [Gwesty'r Cawdor]. | 3 - 5 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant | Gallai achosi problemau ar gyfer dosbarthu nwyddau i'r gwesty/ardal aros am dacsi/gwesteion yn gollwng bagiau. Bydd cael gwared ar y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cefnffyrdd De Cymru | ddarpariaeth barcio yn arwain at effaith economaidd negyddol ar fusnesau lleol. |
| 3d | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd Rhosmaen os yw'n bosibl. [Gyferbyn â Chymdeithas Adeiladu'r Principality]. | 1 - 2 | | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Gallai fod effeithiau cadarnhaol ar gyfer cynnal llif y traffig ond byddai problemau o ran cael gwared ar leoedd parcio i'r anabl/llwytho a lleoedd parcio am gyfnod byr. Bydd cael gwared ar y ddarpariaeth barcio yn arwain at effaith economaidd negyddol ar fusnesau lleol. |
| C2 | Adolygu'r ddarpariaeth barcio yn y dref o ran cael gwared ar barcio i breswylwyr yn ystod y dydd i ganiatáu ar gyfer defnydd a rennir, gan felly liniaru'r angen i barcio ar Stryd Rhosmaen ac atodi'r maes parcio yn Heol Cilgant. | ? | | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru<br><br>Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol gyda gwell defnydd o barcio ar y stryd. Mae hyn yn debygol o symud y broblem o ansawdd aer gwael i rywle arall o fewn tref Llandeilo ac i ardaloedd preswyl. Mae hefyd yn debygol y bydd pobl yn parhau i fentro parcio yn groes i'r rheolau parcio drwy barcio ar Stryd Rhosmaen, gan felly wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| C3 | Asesu taliadau parcio yn y dref i benderfynu ar unrhyw fanteision o leihau | ? | | Cyngor Sir | Posibiliadau cyfyngedig ar gyfer gwella ansawdd aer. Mae'r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | neu gael gwared ar daliadau, yn arbennig er mwyn annog parcio mwy priodol. | | | Caerfyrdd in | strategaeth parcio ceir yn helpu i reoli'r galw am le ar y priffyrdd. Os yw'r gostyngiad mewn ffioedd parcio ceir yn digwydd, ac mae'n arwain at y cyfleuster parcio'n gorlenwi, gallai hyn arwain at fwy o deithiau'n cael eu gwneud o fewn y dref wrth i gerbydau chwilio (neu aros) i leoedd ddod ar gael. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer lleol. |
| 7 | Edrych ar y posibilrwydd o ddosbarthu nwyddau i gefn yr eiddo busnes yn hytrach nag ar hyd Stryd Rhosmaen. | 3 - 4 | Anhysbys – astudiaeth ddichonoldeb . | Cyngor Sir Caerfyrddi n | Dylai gael effaith gadarnhaol ond efallai mai nifer cyfyngedig o fusnesau a fyddai gallu mabwysiadu hyn. |
| 8 | Hyrwyddo beicio a cherdded i'r ysgol yn fwy. Darparu ysgogiadau megis helmedau beicio am ddim os yw plant yn beicio i'r ysgol fwy na 75 gwaith mewn blwyddyn. | ? | £15K | Cyngor Sir Caerfyrddi n | Effaith gadarnhaol, er bod yn rhaid ystyried materion diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r A483 o Abertawe i Fanceinion yn gefnffordd sydd â mwy o gerbydau nwyddau trwm yn ei defnyddio. Mae annog plant i deithio ar hyd y llwybr hwn neu'n agos ato yn debygol o gynyddu'r perygl o ddamweiniau traffig yn digwydd. Mae gan y ddwy ysgol yn yr ardal hefyd ddalgylchoedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | eang, sy'n golygu cynyddu amserau teithio, gan wneud cerdded neu feicio i'r ysgol yn afrealistig yn sgil cyfyngiadau teithio. |
| 9 | Hyrwyddo rhannu car i'r gwaith / ysgol. Sefydlwyd gwefan ar gyfer yr ardal wledig i'r gogledd o Landeilo ar gyfer pobl sy'n teithio i Abertawe / Llanelli / Caerfyrddin ac ati. | ? | Costau cyhoeddusrwydd lleiaf | Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol. |
| 11 | Gwella problemau parcio ar y stryd gyda gorfodi ychwanegol neu fwy aml. | 2 - 3 | Cost niwtral | Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol a bydd yn gwella llifau traffig. |
| 20 | Nodi os gellir gwella arosfannau bysiau ar hyd y stryd er mwyn caniatáu llif traffig rhydd. | ? | £5K | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Bydd asesiad o leoliadau arosfannau bysiau eisoes wedi cael ei wneud, yn enwedig o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd. Gallai'r opsiynau fod yn gyfyngedig, os oes rhai o gwbl. |
| 21 | Hyrwyddo llwybrau amgen (o bosibl drwy gysylltiadau cludiant) i leoliadau i'r | ? | £10K | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraet | Gwnaeth yr arwyddion ffordd yn tynnu sylw at gau Stryd Rhosmaen dynnu sylw mai prin oedd unrhyw ostyngiad mewn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gogledd o Landeilo fel y gall cerbydau osgoi'r dref. | | | h Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | niferoedd cerbydau os o gwbl. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael i hyrwyddo'r rhain fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| 22 | Nodi'r defnydd prysuraf o'r ffordd, e.e. amser teithio i'r ysgol, diwrnodau mart a marchnad, yna targedu gwelliannau / cyfyngiadau / llwybrau amgen yn ystod yr amseroedd hyn. | ? | £5K | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Effeithiau cadarnhaol posibl ond gallai fod yn anodd ei gyflawni yn logistaidd. |
| C4 | Asesu dichonoldeb cynllun treialu chwe mis ar gyfer gwyriad cerbydau nwyddau | ? | | Cyngor Sir Caerfyrddi | Effeithiau cadarnhaol posibl ar gyfer ansawdd aer. Byddai'n rhaid |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | trwm i ffwrdd o'r dref (ar wahân i ddosbarthu nwyddau). | | | n gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | i'r cyfnod treialu gwmpasu'r gwanwyn/haf neu haf/hydref i benderfynu ar yr effaith ar ansawdd aer gyda'r data wedyn yn cael ei gyflwyno ar ffurf flynyddol i ragweld data blynyddol. Gallai problemau o ran gorfodi'r gwyriad godi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y cynllun treialu. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| C1 | Asesu dichonoldeb gweithredu cyfyngiad pwysau 15 tunnell ar y bont islaw Stryd y | Bydd angen adolygu data traffig a seilio'r | | Llywodraeth Cymru / | Effeithiau cadarnhaol posibl ond gallai achosi problemau ar gyfer |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bont i sicrhau bod cerbydau mwy yn cael eu dargyfeirio i ffwrdd o'r dref. | rhagfynegiad ar y % o gerbydau a gafodd eu gwaredu. | | Asiant Cefnffyrdd De Cymru | dosbarthu nwyddau i fusnesau, costau trafnidiaeth busnes ychwanegol, pryderon cynaliadwyedd. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. Hefyd bydd problemau o ran gorfodi'r opsiwn hwn. |
| **Cam 1 – Asesu a gweithredu opsiynau (lle y bo'n bosibl) o fewn dwy flynedd (adolygiad ar ôl y flwyddyn gyntaf)** | | | | | |

**Atodiad I: Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo**

Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo – Cam 1 (Amserlen Fer a Dichonoldeb Hawdd)

| Rhif y cynnig | Disgrifiad o'r cynnig | Gostyngiad a ragwelir mewn $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | Costau a amcangyfrifir | Arweinydd | Effeithiau canlyniadol |
|---|---|---|---|---|---|
| 3a | Asesu a lleihau’r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd y Bont os yw'n bosibl. [Ffrwythau a Llysiau Gerwyn] | 1 - 2 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Effaith negyddol bosibl ar gyfer y siop ffrwythau a llysiau. Gallai preswylwyr hefyd gwyno ynglŷn â chael gwared ar y ddarpariaeth barcio. Bydd cael gwared ar y ddarpariaeth barcio yn arwain at effaith economaidd negyddol ar fusnesau lleol. |
| 3b | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd Rhosmaen os yw'n bosibl. [Eglwys Sant Teilo]. | 1 - 2 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Gallai greu problemau ar gyfer parcio cerbydau cynnal a chadw'r tir o ran yr eglwys/tir yr eglwys/pobl yn ymweld â beddi. |
| 3c | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd Rhosmaen os yw'n bosibl. [Gwesty'r Cawdor]. | 3 - 5 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Gallai achosi problemau ar gyfer dosbarthu nwyddau i'r gwesty/ardal aros am dacsi/gwesteion yn gollwng bagiau. Bydd cael gwared ar y ddarpariaeth barcio yn arwain at effaith economaidd negyddol ar fusnesau lleol. |
| 3d | Asesu a lleihau'r ddarpariaeth barcio ar hyd Stryd Rhosmaen os yw'n bosibl. [Gyferbyn â Chymdeithas Adeiladu'r Principality]. | 1 - 2 | | Llywodraeth Cymru / Asiant | Gallai fod effeithiau cadarnhaol ar gyfer cynnal llif y traffig ond byddai problemau o ran cael gwared ar leoedd parcio i'r anabl/llwytho a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cefnffyrdd De Cymru | lleoedd parcio am gyfnod byr. Bydd cael gwared ar y ddarpariaeth barcio yn arwain at effaith economaidd negyddol ar fusnesau lleol. |
| C2 | Adolygu'r ddarpariaeth barcio yn y dref o ran cael gwared ar barcio i breswylwyr yn ystod y dydd i ganiatáu ar gyfer defnydd a rennir, gan felly liniaru'r angen i barcio ar Stryd Rhosmaen ac atodi'r maes parcio yn Heol Cilgant. | ? | | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol gyda gwell defnydd o barcio ar y stryd. Mae hyn yn debygol o symud y broblem o ansawdd aer gwael i fannau eraill o fewn tref Llandeilo, ac i ardaloedd preswyl. Mae hefyd yn debygol y bydd pobl yn parhau i fentro parcio yn groes i'r rheolau parcio drwy barcio ar Stryd Rhosmaen, gan felly wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| C3 | Asesu taliadau parcio yn y dref i benderfynu ar unrhyw fanteision o leihau neu gael gwared ar daliadau, yn arbennig er mwyn annog parcio mwy priodol. | ? | | Cyngor Sir Caerfyrddin | Posibiliadau cyfyngedig ar gyfer gwella ansawdd aer. Mae'r strategaeth parcio ceir yn helpu i reoli'r galw am ofod ar y priffyrdd. Os yw'r gostyngiad mewn ffioedd parcio ceir yn digwydd, ac mae'n arwain at y cyfleuster parcio'n gorlenwi, gallai hyn arwain at fwy o deithiau'n cael eu gwneud o fewn y dref wrth i gerbydau chwilio (neu aros) i leoedd ddod ar gael. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer. |
| 7 | Edrych ar y posibilrwydd o ddosbarthu nwyddau i gefn yr eiddo busnes yn hytrach nag ar hyd Stryd Rhosmaen. | 3 - 4 | Anhysbys – astudiaeth ddichonoldeb. | Cyngor Sir Caerfyrddin | Dylai gael effaith gadarnhaol ond efallai mai nifer cyfyngedig o fusnesau a fyddai gallu mabwysiadu hyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Hyrwyddo beicio a cherdded i'r ysgol yn fwy. Darparu ysgogiadau megis helmedau beicio am ddim os yw plant yn beicio i'r ysgol fwy na 75 gwaith mewn blwyddyn. | ? | £15K | Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol, er bod yn rhaid ystyried materion diogelwch ar y ffyrdd. Mae llwybr yr A483 o Abertawe i Fanceinion yn gefnffordd sydd â mwy o gerbydau nwyddau trwm yn ei defnyddio. Mae annog plant i deithio ar hyd y llwybr hwn neu'n agos ato yn debygol o gynyddu'r perygl o ddamweiniau traffig yn digwydd. Mae gan y ddwy ysgol yn yr ardal hefyd ddalgylchoedd eang, sy'n golygu cynyddu amserau teithio, gan wneud cerdded neu feicio i'r ysgol yn afrealistig yn sgil cyfyngiadau teithio. |
| 9 | Hyrwyddo rhannu car i'r gwaith / ysgol. Sefydlwyd gwefan ar gyfer yr ardal wledig i'r gogledd o Landeilo ar gyfer pobl sy'n teithio i Abertawe / Llanelli / Caerfyrddin ac ati. | ? | Costau cyhoeddusrwydd lleiaf | Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol. |
| 11 | Gwella problemau parcio ar y stryd gyda gorfodi ychwanegol neu fwy aml. | 2 - 3 | Cost niwtral | Cyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol a bydd yn gwella llifau traffig. |
| 20 | Nodi os gellir gwella arosfannau ar hyd y stryd er mwyn caniatáu llif traffig rhydd. | ? | £5K | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd | Bydd asesiad o leoliadau arosfannau bysiau eisoes wedi cael ei wneud, yn enwedig o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd. Gallai'r opsiynau fod yn gyfyngedig iawn, os oes rhai o gwbl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | d De Cymru | |
| 21 | Hyrwyddo llwybrau amgen (o bosibl drwy gysylltiadau cludiant) i leoliadau i'r gogledd o Landeilo fel y gall cerbydau osgoi'r dref. | ? | £10K | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Gwnaeth yr arwyddion ffordd yn tynnu sylw at gau Stryd Rhosmaen dynnu sylw mai prin oedd unrhyw ostyngiad mewn niferoedd cerbydau os o gwbl. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| 22 | Nodi'r defnydd prysuraf o'r ffordd, e.e. amser teithio i'r ysgol, diwrnodau mart a marchnad, yna targedu gwelliannau / cyfyngiadau / llwybrau amgen yn ystod yr amseroedd hyn. | ? | £5K | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Effeithiau cadarnhaol posibl ond gallai fod yn anodd ei gyflawni yn logistaidd. |
| C4 | Asesu dichonoldeb cynllun treialu chwe mis ar gyfer gwyriad cerbydau nwyddau | ? | | Cyngor Sir Caerfyrd | Effeithiau cadarnhaol posibl ar gyfer ansawdd aer. Byddai'n rhaid i'r cyfnod treialu gwmpasu'r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | trwm i ffwrdd o'r dref (ar wahân i ddosbarthu nwyddau). | | | din gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | gwanwyn/haf neu haf/hydref i benderfynu ar yr effaith ar ansawdd aer gyda'r data wedyn yn cael ei gyflwyno ar ffurf flynyddol i ragweld data blynyddol. Gallai problemau o ran gorfodi'r gwyriad godi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y cynllun treialu. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| C1 | Asesu dichonoldeb gweithredu cyfyngiad pwysau 15 tunnell ar y bont islaw Stryd y Bont i sicrhau bod cerbydau mwy yn cael eu dargyfeirio i ffwrdd o'r dref. | Bydd angen adolygu data traffig a seilio'r rhagfynegiad ar y % o gerbydau a gafodd eu gwaredu. | | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Effeithiau cadarnhaol posibl ond gallai achosi problemau ar gyfer dosbarthu nwyddau i fusnesau, costau trafnidiaeth busnes ychwanegol, pryderon cynaliadwyedd. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael fel dewisiadau amgen. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. Hefyd bydd problemau o ran gorfodi'r opsiwn hwn. |
| **Cam 1 – Asesu a gweithredu opsiynau (lle y bo'n bosibl) o fewn dwy flynedd (adolygiad ar ôl y flwyddyn gyntaf)** | | | | | |

Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo – Cam 2 (Amserlen Fer a Dichonoldeb Canolig)

| Rhif y cynnig | Disgrifiad o'r cynnig | Gostyngiad a ragwelir mewn $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | Costau a amcangyfrifir | Arweinydd | Effeithiau canlyniadol |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Gwelliannau i gynllun y stryd, h.y. llwybrau croesi i gerddwyr, gwelliannau i led y palmant. | 4 - 6 | £100K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Bydd angen ystyried materion diogelwch ar y ffyrdd ac mae'n debygol y bydd lledu'r palmant ond yn bosibl pan fod lled y ffordd yn caniatáu hynny. Ni fyddai hyn yn targedu'r 'ardaloedd â phroblem' llygredd aer. Gallai'r opsiwn hwn danseilio swyddogaeth strategol y priffyrdd yn ddifrifol, gan greu effaith economaidd negyddol ar gyfer y diwydiant ehangach. Diben cefnffordd yr A483 yw cludo traffig yn effeithiol. Byddai gosod cyfyngiadau ar gynllun y ffordd yn groes i'r nod hwn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Bysiau ysgol yn cyrraedd / gadael ar amseroedd gwasgarog pendant a'u llwybrau'n defnyddio opsiwn Bethlehem / Llangadog, Llangathen. | 1 - 2 | Lleiaf (gallai godi costau ychwanegol ar gontractau gweithredwyr bysiau) | Cyngor Sir Caerfyrddin | Gallai gael mân effaith gadarnhaol, er y gallai efallai ymestyn y tagfeydd sy'n gysylltiedig â'r daith i'r ysgol ac yn ôl dros gyfnod hirach. Gallai gael effeithiau negyddol ar gyfer amserlen yr ysgol, gweithredwyr bysiau a choetsis, a staff ysgolion. |

Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo – Cam 3 (Amserlen Ganolig a Dichonoldeb Canolig)

| Rhif y cynnig | Disgrifiad o'r cynnig | Gostyngiad a ragwelir mewn $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | Costau a amcangyfrifir | Arweinydd | Effeithiau canlyniadol |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 | Annog cynllun parcio a theithio. | ? | £50K + £25K y flwyddyn o gostau gweithredu parhaus | Cyngor Sir Caerfyrddin | Gallai gael effeithiau cadarnhaol os gellir dod o hyd i leoliadau addas. Gallai fod angen cyfleuster parcio i'r gogledd a'r de o'r dref. Gwelliant anhysbys mewn $NO_2$. Mae cynllun eisoes yn bodoli sy'n rhedeg o'r orsaf a gallai fod cyfle i adeiladu ar hyn. Byddai cost refeniw sylweddol ar gyfer darparu'r cyfleuster hwn a'i gynnal a'i gadw. Hefyd, mae'r galw ar gyfer y  gwasanaeth hwn mewn tref mor fach â Llandeilo yn debygol o fod yn isel iawn. |

Cynllun Gweithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo – Cam 4 (Amserlenni Hirach a Dichonoldeb Canolig neu Anodd)

| Rhif y cynnig | Disgrifiad o'r cynnig | Gostyngiad a ragwelir mewn $NO_2$ ($\mu g/m^3$) | Costau a amcangyfrifir | Arweinydd | Effeithiau canlyniadol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dargyfeirio cerbydau nwyddau trwm i lwybrau eraill a/neu eu cyfyngu i oriau penodol drwy'r dref, e.e. er mwyn osgoi'r amseroedd ar gyfer cymudo a theithio i'r ysgol. | 4 - 6 | £50K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Byddai effeithiau cadarnhaol yn deillio o'r cynnig hwn. Fodd bynnag, gallai fod cryn dipyn o wrthwynebiad o fyd busnes gyda chynnydd o ran costau ac amser. Sut y byddai'n cael ei orfodi / rheoli? Bydd dosbarthu nwyddau i'r dref sydd fel arfer yn dosbarthu ar hyd Stryd Rhosmaen yn dal i fod yn ofynnol, gan barhau i greu tagfeydd. Gallai cyfyngu ar amseroedd cerbydau nwyddau trwm fod yn bosibl o ran egwyddor a gallai helpu ansawdd aer pe bai'r rhan fwyaf o gerbydau nwyddau trwm yn teithio drwyddo dros nos. Mae angen ystyried effeithiau sŵn o hyn. Mae cefnffordd A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| 2 | System un ffordd gyda cherbydau'n cael eu dargyfeirio o amgylch Stryd y Brenin. | 5 - 8 | £15K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru gyda Chyngor Sir Caerfyrddin | Gwnaeth prosiect cau Stryd Rhosmaen nodi y gallai Stryd y Brenin gael ei defnyddio fel llwybr gwyriad ar gyfer ceir a bysiau (ni wnaeth cerbydau nwyddau trwm ddefnyddio'r llwybr hwn) ond roedd cynnydd sylweddol mewn canlyniadau $NO_2$ mewn lleoliadau penodol. Mae hyn yn awgrymu ei fod yn symud y broblem i ardaloedd preswyl y dref yn hytrach na'i datrys. Yn logistaidd, gallai fod yn anodd ei gyflawni fel datrysiad parhaol hefyd. Mae cau Stryd Rhosmaen yn gynnar yn 2013 eisoes wedi dangos bod effeithiau negyddol eraill i'r cynnig hwn, gyda niwed yn cael ei achosi i'r seilwaith ffyrdd a hefyd i adeiladau ac adeileddau sy'n gyfagos i lwybrau amgen. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn gwaethygu amseroedd teithio. |
| 4 | System goleuadau traffig ar amseroedd brig i leihau'r broblem fwg | ? | £50K | Llywodraeth Cymru / Asiant | Mae hyn yn debygol o wella llif traffig o fewn ardal y brif stryd ar adegau penodol o'r dydd. Fodd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | mewn ardaloedd cyfyng yng nghanol y dref. | | | Cefnffyrdd De Cymru | bynnag, mae opsiynau cyfyngedig iawn ar gyfer lleoliad y goleuadau traffig. Gallai hyn arwain at symud y broblem yn hytrach na'i datrys. Yn ychwanegol, mae cyfyngiadau ar y pellter rhwng lleoliadau goleuadau traffig ar hyd cefnffordd. |
| 12 | Gweithredu goleuadau traffig ar y naill ben a'r llall o Stryd Rhosmaen er mwyn rheoleiddio'r llif sengl o draffig, gan felly wella'r llif. | ? | £50K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Materion tebyg i'r rhai a fanylwyd arnynt yng nghynnig Rhif 4 uchod. |
| 17 | Adeiladu ffordd osgoi. | Hyd at 30 | £40 miliwn + | Llywodraeth Cymru | Effaith gadarnhaol bendant mewn perthynas â gwella ansawdd aer. Gallai fod pryderon yn cael eu mynegi o ran tynnu masnach i ffwrdd o'r dref. Byddai'n ddatrysiad hirdymor ac yn gostus i'w weithredu, ond byddai o fudd economaidd i Landeilo a'r ardal ehangach. Byddai darparu ffordd osgoi yn gwella amseroedd teithio, a fydd yn cryfhau pwysigrwydd cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, gan wella'r cysylltiadau â Dinas Ranbarth Bae Abertawe. Gallai'r cynnig hwn hefyd gael effaith gadarnhaol ar ddigwyddiadau traffig ffyrdd a chyfraddau anafiadau, ac mae'n debygol o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wneud tref Llandeilo yn lleoliad mwy deniadol ar gyfer ymwelwyr. |
| 18 | Cau Stryd Rhosmaen i draffig (ar wahân i ddosbarthu nwyddau). | 25 - 30 | £25K | Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru gyda Chyngor Sir Caerfyrddin | Effaith gadarnhaol bendant ar gyfer ansawdd aer, ond gwnaeth y canlyniadau o'r prosiect cau ffyrdd nodi bod defnyddio llwybrau gwyriad lleol wedi symud y broblem ansawdd aer i ardaloedd preswyl. Mae'n amheus a oes llwybrau gwyriad yn bodoli ymhellach o fewn yr ardal. Yn anodd ei gyflawni yn logistaidd. Mae'n debygol o greu mwy o alw am barcio yn y dref gan y byddai'r lleoedd parcio hynny ar hyd Stryd Rhosmaen wedyn yn cael eu gwaredu. Hefyd, mae cefnffordd yr A483 Manceinion i Abertawe o bwysigrwydd economaidd mawr i'r diwydiant ehangach, gan gysylltu Dinas Ranbarth Bae Abertawe ag ardaloedd i'r gogledd. Mae prinder llwybrau economaidd dichonadwy ar gael fel dewisiadau amgen. Mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw lwybrau amgen sy'n cael eu hyrwyddo yn economaidd, yn ariannol nac o ran amseroedd teithio, ac felly byddent yn cael eu hanwybyddu, gan wneud yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. |
| 19 | Cael gwared ar leoedd parcio a llwytho. | ? | £15K | Llywodraeth Cymru / | Bydd hyn yn helpu i wella'r llif traffig ar hyd Stryd Rhosmaen, |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Asiant Cefnffyrdd De Cymru | gan arwain at effaith gadarnhaol ar ansawdd aer. Mae cael gwared ar leoedd llwytho yn debygol o achosi pryderon ar gyfer perchnogion busnesau ar hyd Stryd Rhosmaen. Eto, mwy o bwysau ar y lleoedd parcio sy'n weddill yn y dref. |
| 23 | Gwyriad amrywiol o fewn cyfyngiadau $NO_2$ penodedig (gan ddefnyddio offer monitro parhaus). | ? | £250K ar gyfer arwyddion a monitro gweithredol | Cyngor Sir Caerfyrddin gyda Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd De Cymru | Mae'r mater o ddefnyddio llwybrau gwyriad yn cael ei godi eto ond, oherwydd bod y system yn 'amrywiol', fwy na thebyg mae gan y cynnig hwn fwy o bosibiliadau. Mae'r prinder llwybrau amgen sy'n ddichonadwy yn economaidd yn golygu yn ystod yr amseroedd defnydd mwyaf (h.y. pan fo ansawdd aer ar ei waethaf) nad oes unrhyw le i'r traffig i fynd. Gallai hyn arwain at effeithiau economaidd ehangach yn sgil cynnydd mewn tagfeydd, gan effeithio ar amseroedd teithio. Problemau hefyd o ran gorfodi'r system hon. Yn anodd ei gyflawni yn logistaidd ac mae'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol o ran monitro amser real ac offer cyfathrebu. |

# Rhestr Termau

| Talfyriad | Disgrifiad |
|---|---|
| AQAP | Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Disgrifiad manwl o fesurau, canlyniadau, dyddiadau cyflawni a dulliau gweithredu, yn dangos sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu bodloni gwerthoedd ansawdd aer |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Ardal Rheoli Ansawdd Aer – Ardal lle y bo crynodiadau llygredd aer yn fwy / yn debygol o fod yn fwy na'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan ar gyfer llygrwyr ac amcanion penodol |
| AQO | Amcan Ansawdd Aer |
| APR | Adroddiad Cynnydd Blynyddol Ansawdd Aer |
| AURN | Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig (rhwydwaith monitro ansawdd aer y DU) |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DMRB | Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd – Offeryn sgrinio ansawdd aer a grëwyd gan Briffyrdd Lloegr |
| FDMS | System Mesur Dynameg Ffilter |
| LAQM | Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol |
| $NO_2$ | Nitrogen deuocsid |
| $NO_x$ | Ocsidiau nitrogen |
| $PM_{10}$ | Deunydd gronynnol yn yr aer gyda diamedr aeroddynamig o 10 µm (micrometrau neu ficronau) neu lai |
| $PM_{2.5}$ | Deunydd gronynnol yn yr aer gyda diamedr aeroddynamig o 2.5µm neu lai |
| QA/QC | Sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd |
| $SO_2$ | Sylffwr deuocsid |